



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales  
(The Official Record)**

**Dydd Mercher, 29 Medi 2004**

**Wednesday, 29 September 2004**

**Cynnwys  
Contents**

- |     |   |
|-----|---|
| 3   | Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid<br>Questions on Finance to the Finance Minister   |
| 20  | Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad<br>Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside   |
| 34  | Adroddiad Blynnyddol Prif Weinidog Cymru 2003-04<br>The First Minister's Annual Report 2003-04  |
| 82  | Pwynt o Drefn<br>Point of Order   |
| 82  | Adroddiad y Pwyllgor Cyflawnder Cymdeithasol ac Adfywio ynglŷn â Thai ar gyfer<br>Pobl Hŷn<br>The Social Justice and Regeneration Committee's Report on Housing for Older People                |
| 91  | Cynnig Trefniadol<br>Procedural Motion  |
| 92  | Adroddiad y Pwyllgor Cyflawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar Dai ar gyfer Pobl Hŷn:<br>Parhad<br>The Social Justice and Regeneration Committee's Report on Housing for Older People:<br>Continued |
| 102 | Dadl Fer: 'Rhywun i Droi Ato'—Gwrando ar Blant a Phobl Ifanc<br>Short Debate: 'Someone to Turn To'—Listening to Children and Young People   |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy yn ddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.*  
*The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog Cyllid Questions on Finance to the Finance Minister

### Tanwariant yng Nghyllideb y Llywodraeth Underspend in the Government's Budget

**Q1 David Melding:** What was the level of underspend in the Welsh Assembly Government's budget in 2002-03? (OAQ37863)

**The Finance Minister (Sue Essex):** In the written Cabinet statement on 2002-03 Assembly expenditure issued on 22 January 2004, I advised that the Assembly's total expenditure was £10,695 million, which was 99.8 per cent of the provision of £10,717 million. Of the budgets allocated to main expenditure groups, for which the Assembly had full discretion, that is, the departmental expenditure limit budgets, the match was 99.1 per cent of the provision of £9,567 million.

**David Melding:** Do you agree that all public authorities have a duty to use public money expeditiously? You may have seen the article in today's *The Western Mail* about local government expenditure on regeneration. Also, many schools have large reserves. If we were to set a good example, it would encourage others to use public money effectively.

**Sue Essex:** We achieve a high level of match of spend to the budget allocation and are one of the best performing parts of government. It is difficult to achieve an exact match, because so many budget lines are demand led. You can never be 100 per cent clear what the demand will be in any year, and when you allocate grants and spend such sums of money—especially on economic development—it is difficult to ensure a match at the end of the year. I take your point that where public money is involved, rather than having it sitting in budget lines not being used—I made this point strongly when we decided on last year's budgets—it is important that we try to ensure that all money

**C1 David Melding:** Beth oedd lefel y tanwariant yng nghyllideb 2002-03 Llywodraeth Cynulliad Cymru? (OAQ37863)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Yn natganiad ysgrifenedig y Cabinet ar wariant y Cynulliad yn 2002-03 a gyhoeddwyd ar 22 Ionawr 2004, nodais mai £10,695 miliwn oedd cyfanswm gwariant y Cynulliad, sef 99.8 y cant o'r ddarpariaeth o £10,717 miliwn. O ran y cyllidebau a ddyrannwyd i'r prif grwpiau gwariant, yr oedd gan y Cynulliad ddisgresiwn llawn drostynt, hynny yw, cyllidebau terfynau gwariant adrannol, y ffigur oedd 99.1 y cant o'r ddarpariaeth o £9,567 miliwn.

**David Melding:** A gytunwch fod dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i ddefnyddio arian cyhoeddus yn gyflym? Efallai eich bod wedi gweld yr erthygl yn *The Western Mail* heddiw ynglŷn â gwariant llywodraeth leol ar adfywio. Hefyd, mae gan ysgolion gronfeydd wrth gefn mawr. Pe baem yn gosod esiampl dda, byddai hynny'n annog eraill i ddefnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol.

**Sue Essex:** Yr ydym yn llwyddo i wario canran uchel o'r gyllideb a ddyrannwyd ac mae ein perfformiad yn hynny o beth gyda'r gorau yn y llywodraeth. Mae'n anodd gwario'r gyllideb gyfan, am fod cymaint o linellau'r gyllideb yn cael eu gwario yn ôl y galw. Ni allwch byth fod yn hollol sicr beth fydd y galw mewn unrhyw flwyddyn, a phan fyddwch yn dyrannu grantiau ac yn gwario symiau o arian o'r fath—yn enwedig o ran datblygu economaidd—mae'n anodd sicrhau bod y gwariant yn cyfateb â'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Derbyniaf eich pwynt, o ran arian cyhoeddus, ei bod yn bwysig ein bod yn ceisio sicrhau bod yr arian i gyd yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth ac yn effeithiol

is used wisely and effectively.

yn hytrach na'i adael yn y gyllideb heb ei ddefnyddio—gwneuthum y pwynt hwn yn gryf pan oeddem yn penderfynu ar gyllidebau'r flwyddyn ddiwethaf.

**John Griffiths:** In using end-year-flexibility underspend in the future, will you consider some sort of contingency fund to deal with unexpected events, which may be important to our heritage? As you know, a whale washed up near Newport recently, which aroused much interest locally, with thousands—including me—flocking to see it. There was a lot of concern that there was no money available to conserve and display its skeleton, and it had to be removed quickly. Many people suggested that we might have a Wales-wide fund to deal with such events.

**John Griffiths:** Wrth ddefnyddio tanwariant hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn y dyfodol, a ystyriwch sefydlu rhyw fath o gronfa wrth gefn i ymdrin â digwyddiadau annisgwyl, a all fod yn bwysig i'n treftadaeth? Fel y gwyddoch, golchodd morfil i'r lan ger Casnewydd yn ddiweddar, a enynnodd gryn ddiddordeb yn lleol, gyda miloedd—a minnau yn eu plith—yn heidio yno i'w weld. Bu cryn bryder nad oedd unrhyw arian ar gael i ddiogelu ac arddangos ei sgerbwad, a bu'n rhaid ei symud yn gyflym. Awgrymodd llawer o bobl y gallem o bosibl sefydlu cronfa Cymru gyfan i ymdrin â digwyddiadau o'r fath.

**Sue Essex:** I suppose that that pun was accidental rather than intended, but it is an interesting point. There was huge interest in that event and it captured the media's imagination because many people do not realise how rich our marine environment is. It was a tremendous example of how fortunate we are to have species like whales in the world. Let us hope that they are not hunted to extinction. On the idea of a contingency fund, there is no such fund, but as you and Rosemary will remember when the remains of a ship were found in Newport, we came up with the goods in terms of money. I would like to think that if there were a special occasion, local authorities would write to us about their need; if it was a Wales-wide phenomenon that we would all need to observe, we would respond.

**Sue Essex:** Mae hynny'n bwynt diddorol. Bu diddordeb mawr yn y digwyddiad hwnnw a chydiodd yn nychymyg y cyfryngau am nad yw pobl yn aml yn sylweddoli pa mor gyfoethog yw ein hamgylchoedd morol. Yr oedd yn engraifft wych o ba mor ffodus ydym fod gennym rywogaethau megis morfilod yn y byd. Gobeithio na chânt eu hela nes ein bod yn eu colli yn gyfan gwbl. O ran y syniad o gronfa wrth gefn, nid oes cronfa o'r fath, ond fel y cofiwr chi a Rosemary pan ddarganfuwyd gweddillion llong yng Nghasnewydd, darparwyd cyllid gennym. Hoffwn feddwl y byddai awdurdodau lleol yn ysgrifennu atom am unrhyw anghenion a oedd ganddynt os oedd achlysur arbennig wedi codi; os mai ffenomenon dros Gymru gyfan ydoedd ac y byddai angen inni oll ei hystyried yna byddem yn ymateb.

**The Presiding Officer:** Question 2 (OAQ37854) has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 2 (OAQ37854) yn ôl.

### Symiau Canlyniadol Barnett Barnett Consequentials

**C3 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar symiau canlyniadol Barnett mewn cysylltiad â deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig? (OAQ37871)

**Sue Essex:** The principles underpinning the

**Q3 David Lloyd:** Will the Minister make a statement on the Barnett consequentials of forthcoming UK Government legislation? (OAQ37871)

**Sue Essex:** Nodir yr egwyddorion sy'n sail i

allocation of public expenditure are set out in the statement of funding policy. Where decisions of UK departments lead to additional costs for devolved administrations, UK departments will meet that cost.

**David Lloyd:** Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch ariannu'r Mesur Paratoadau Sifil?

**Sue Essex:** I believe that it is as reported at committee.

**The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones):** If more money was available from Barnett consequentials, you might be able to deal with the crisis in the health service. Can you confirm that the way that this Government pays for operations outside Wales is to agree with a hospital or trust that you will only pay for operations within your stated targets for treatment?

**Sue Essex:** I do not accept your premise if this is a question about Barnett. As you will remember, when Gordon Brown announced the extra money earlier this year, including the money for structural funds, we got a good deal out of the settlement. You are wrong to say that Wales is not getting a good deal out of the settlement. There has been a 73 per cent growth in health funding since 1999. So, in terms of those figures, you are wrong. On the specific allocations under the second offer guarantee scheme—I am not sure whether that was what you were referring to—as I understand it, we are paying for it on that basis. I will check on that, but I am sure that that is the way the money is going out.

**Ieuan Wyn Jones:** You are the Finance Minister, and therefore I would have expected that you would have known how your Government is paying for patients to be treated outside of Wales. You will have heard my exchanges with the First Minister yesterday on the case of Mrs Elizabeth Moses from Menai Bridge. She was not aware that it was Government policy not to pay for operations until people have been on the waiting list for a substantial amount of time, which means that patients from Wales have to wait longer for their treatment in English hospitals than patients from England do. I am

ddyrannu gwariant cyhoeddus yn y datganiad o bolisi cylrido. Lle mae penderfyniadau gan adrannau'r DU yn arwain at gostau ychwanegol i weinyddiaethau datganoledig, adrannau'r DU fydd yn talu'r costau hynny.

**David Lloyd:** What is the latest situation with regard to funding the Civil Contingencies Bill?

**Sue Essex:** Credaf fod y sefyllfa fel y'i nodwyd yn y pwyllogr.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones):** Pe bai mwy o arian ar gael o symiau canlyniadol Barnett, efallai y gallech ymdrin â'r argyfwng yn y gwasanaeth iechyd. A allwch gadarnhau bod y Llywodraeth hon yn talu am lawdriniaeth y tu allan i Gymru drwy gytuno ag ysbty neu ymddiriedolaeth mai dim ond llawdriniaethau o fewn eich targedau datganedig ar gyfer triniaeth y bydd yn talu amdanynt?

**Sue Essex:** Ni dderbyniaf eich rhagosodiad os mai cwestiwn ynglŷn â Barnett yw hwn. Fel y cofiwch, pan gyhoeddodd Gordon Brown fod arian ychwanegol ar gael yn gynharach eleni, gan gynnwys yr arian ar gyfer cronfeydd strwythurol, yr oedd y setliad yn un da inni. Nid yw'n gywir dweud nad yw'r setliad yn un da i Gymru. Bu twf o 73 y cant yn y gyllideb iechyd ers 1999. Felly, o ran y ffigurau hynny, yr ydych yn anghywir. O ran y dyraniadau penodol o dan gynllun gwarantu'r ail gynnig—nid wyf yn siŵr ai at hynny yr oeddech yn cyfeirio—fel y deallaf, yr ydym yn talu am hynny ar y sail honno. Ymchwiliaf i hynny, ond yr wyf yn siŵr mai dyna sut y caiff yr arian ei wario.

**Ieuan Wyn Jones:** Chi yw'r Gweinidog Cyllid, ac felly byddwn wedi disgwyl ichi wybod sut y mae eich Llywodraeth yn talu am i gleifion gael eu trin y tu allan i Gymru. Byddwch wedi clywed y sylwadau a wnaed ddoe wrth i'r Prif Weinidog a minnau drafod achos Mrs Elizabeth Moses o Borthaethwy. Ni wyddai mai polisi'r Llywodraeth oedd peidio â thalu am lawdriniaeth nes bod pobl wedi bod ar y rhestr aros ers cryn amser, sy'n golygu bod cleifion o Gymru yn gorfod aros am fwy o amser am eu triniaeth mewn ysbtyai yn Lloegr na chleifion o Loegr. Gofynnaf ichi gadarnhau, pan fydd

simply asking you to confirm that when trusts in England perform operations on patients in Wales, your Government will only pay for them provided that they keep within your Government's targets. That means that, for orthopaedic surgery, you will not pay until those patients have been waiting 18 months. It is a simple question. Is the answer 'yes' or 'no'?

**Sue Essex:** You ask about how we are paying: you know how we are paying, and how we are working to targets in Wales. It makes no difference whether the service is provided in England or in Wales. This refers to a waiting time target for Welsh patients. It is the same as for Wales.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** How much will be added to the Assembly budget as a consequence of the Higher Education Bill?

**Sue Essex:** I do not know at the moment. It is still being negotiated. As soon as we know, we will let you know.

**Michael German:** You have given a commitment, which we will debate later this afternoon, that there will not be an increase in tuition fees for 2006. Have you estimated the amount of money that you will have to put into the budget in that financial year to cope with not just the students from Wales studying in Wales, but those who may be studying in England during the previous year?

**Sue Essex:** The estimates are being worked out and they are part of this budget.

#### **Blaenoriaethau Pwyllgor ym Mhroses y Gyllideb Committee Priorities in the Budget Process**

**C4 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog egluro sut y mae blaenoriaethau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu hystyried ym mhroses y gyllideb? (OAQ37843)

**Sue Essex:** In line with Standing Order No. 21, I invite all subject committees to submit their views on priorities at the beginning of

ymddiriedolaethau yn Lloegr yn cynnal llawdriniaethau ar gleifion yng Nghymru, mai dim ond os cadwant o fewn targedau eich Llywodraeth y bydd eich Llywodraeth yn talu amdanyst. Golyga hynny, ar gyfer llawdriniaeth orthopedig, na fyddwch yn talu nes bod y cleifion hynny wedi bod yn aros ers 18 mis. Mae'n gwestiwn syml. Beth yw'r ateb, 'ie' neu 'nag'?

**Sue Essex:** Yr ydych yn holi sut yr ydym yn talu: fe wyddoch sut yr ydym yn talu, a sut yr ydym yn gweithio yn ôl targedau yng Nghymru. Nid oes gwahaniaeth pa un ai yn Lloegr neu yng Nghymru y darperir y gwasanaeth. Cyfeiria hyn at darged amser aros i gleifion yng Nghymru. Mae'r un peth â'r targed i Gymru.

**Arweinydd Grŵp Democratioaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Faint o arian a gaiff ei ychwanegu at gyllideb y Cynulliad o ganlyniad i'r Mesur Addysg Uwch?

**Sue Essex:** Ni wn ar hyn o bryd. Yr ydym yn dal i'w negodi. Cyn gynted ag y byddwn yn gwybod, rhoddwn wybod ichi.

**Michael German:** Yr ydych wedi gwneud ymrwymiad, y byddwn yn ei drafod yn nes ymlaen y prynhawn yma, na fydd ffioedd dysgu yn cynyddu yn 2006. A ydych wedi amcangyfrif faint o arian y bydd yn rhaid ichi ei roi yn y gyllideb yn y flwyddyn ariannol honno i ddarparu nid yn unig ar gyfer y myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yng Nghymru ond y rhai hynny sy'n astudio yn Lloegr yn ystod y flwyddyn flaenorol?

**Sue Essex:** Mae amcangyfrifon yn cael eu paratoi ac maent yn rhan o'r gyllideb hon.

**Q4 Rhodri Glyn Thomas:** Will the Minister explain how the priorities of the Health and Social Services Committee are considered in the budget process? (OAQ37843)

**Sue Essex:** Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 21, gwahoddaf bob pwyllgor pwnc i gyflwyno eu sylwadau ar flaenoriaethau ar

the budget process. Committees are also consulted after the draft budget is published. Their priorities are taken into consideration when budget allocations are decided.

**Rhodri Glyn Thomas:** I am grateful for your confirming to Ieuan Wyn Jones that patients from Wales treated in English hospitals are treated on the basis of your waiting time targets. I have a copy of a directive from the chief executive of Health Commission Wales that tells the trusts in England that HCW:

‘will require all English trusts to manage activity within the agreed financial envelope.’

Are you not saying that if a patient from Wales is on an 18-month waiting-time target, he or she will not be treated until the target has been reached? Therefore, if a patient from England is on a lower waiting-time target, he or she will be treated earlier, irrespective of clinical need. Patients from Wales being treated in English hospitals will have to wait until the target has been reached, because the Government will not pay and HCW has told the trust not to treat those people until the required time is reached.

**Sue Essex:** You are going around in circles again. You know what the situation is as well as everyone else here. We are buying equivalent provision in England, but on a Welsh basis. That is the nature of it. It is also the nature of devolution. There is much that we do in Wales that is not done in England: concessionary fares, for example. Therefore, you have to accept certain things. You know that we are working to these time requirements, and that is there.

2.10 p.m.

**Jonathan Morgan:** Rhodri Glyn Thomas quoted from a Health Commission Wales report that I referred to yesterday in questioning the First Minister, in direct relation to cardiac surgery. We have a waiting time target in Wales of 10 months; I said yesterday that it is rare for a cardiac patient in England to wait longer than four or

ddechrau proses y gyllideb. Ymgynghorir â phwylgorau ar ôl i'r gyllideb ddrafft gael ei chyhoeddi hefyd. Ystyrir eu blaenoriaethau pan benderfynir ar ddyraniadau'r gyllideb.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn ddiolchgar ichi am gadarnhau i Ieuan Wyn Jones fod cleifion o Gymru sy'n cael eu trin mewn ysybtai yn Lloegr yn cael eu trin ar sail eich targedau ar gyfer amseroedd aros. Mae gennyd gopi o gyfarwyddyd gan brif weithredwr Comisiwn Iechyd Cymru sy'n dweud wrth yr ymddiriedolaethau yn Lloegr fod y comisiwn:

yn mynnu bod pob ymddiriedolaeth yn Lloegr yn rheoli gweithgaredd o fewn yr amlen ariannol y cytunwyd arni.

Onid ydych yn dweud na chaiff claf o Gymru sydd ar restr aros â tharged o 18 mis, ei drin hyd nes y caiff y targed ei gyrraedd? Felly, os bydd claf o Loegr ar restr aros â tharged is, caiff ei drin yn gynt, waeth beth fo'r angen clinigol. Bydd yn rhaid i gleifion o Gymru sy'n cael eu trin mewn ysybtai yn Lloegr aros nes bod y targed wedi'i gyrraedd, am na fydd y Llywodraeth yn talu ac am fod Comisiwn Iechyd Cymru wedi dweud wrth yr ymddiriedolaeth am beidio â thrin y bobl hynny nes eu bod wedi cyrraedd yr amser gofynnol.

**Sue Essex:** Yr ydych yn drysu eto. Fe wyddoch beth yw'r sefyllfa crystal â neb. Yr ydym yn prynu darpariaeth gyfatebol yn Lloegr, ond ar sail Gymreig. Dyna hanfod y mater. Dyna hanfod datganoli hefyd. Yr ydym yn gwneud llawer yng Nghymru nas gwneir yn Lloegr: tocybau mantais, er enghraifft. Felly, rhaid ichi dderbyn rhai pethau. Fe wyddoch ein bod yn gweithio yn ôl y gofynion amser hyn, a dyna beth sy'n digwydd.

**Jonathan Morgan:** Dyfynnodd Rhodri Glyn Thomas o adroddiad gan Gomisiwn Iechyd Cymru y cyfeiriais ato ddoe wrth holi'r Prif Weinidog mewn perthynas â llawdriniaeth ar y galon. Yng Nghymru mae gennym darged amser aros o 10 mis; dywedais ddoe mai anaml y mae claf yn Lloegr sydd angen llawdriniaeth ar y galon yn aros am fwy na

five months. What Health Commission Wales was saying in that report in July was that there is sufficient capacity in England to treat more Welsh patients, but the Assembly Government will not put any more money or commitment into treating more Welsh patients in England. Bearing in mind that your Government spent £17 million restructuring the NHS in Wales, does this not show a disgraceful lack of priority?

**Sue Essex:** I am certainly prepared to look at that report, Jonathan, to see the figures. You have passed them backwards and forwards with Rhodri Glyn, but I am happy to read the report. I do, however, make the basic point that we need to show fairness to people across Wales. That is why the target levels were set. The cardiac surgery figures—if I remember correctly—are better than 10 months; they are coming down. I will look at that if you send it to me.

phedwar neu bum mis. Yr hyn yr oedd Comisiwn Iechyd Cymru yn ei ddweud yn yr adroddiad hwnnw ym mis Gorffennaf oedd bod digon o adnoddau yn Lloegr i drin mwy o gleifion o Gymru, ond na fydd Llywodraeth y Cynulliad yn neilltuo rhagor o arian nac yn ymrwymo i drin mwy o gleifion o Gymru yn Lloegr. O gofio bod eich Llywodraeth wedi gwario £17 miliwn ar ailstrwythuro'r GIG yng Nghymru, onid yw hyn yn fethiant gwarthus o ran blaenoriaethu?

**Sue Essex:** Yr wyf yn fwy na pharod i edrych ar yr adroddiad hwnnw, Jonathan, i weld y ffigurau. Yr ydych chi a Rhodri Glyn wedi bod yn eu dyfynnu o hyd, ond yr wyf yn barod i ddarllen yr adroddiad. Fodd bynnag, gwnaf y pwynt sylfaenol bod angen inni fod yn deg â phobl ledled Cymru. Dyna pam y gosodwyd lefel y targedau. Mae'r ffigurau ar gyfer llawdriniaeth ar y galon—os cofiaf yn iawn—yn well na 10 mis; maent yn gostwng. Edrychaf ar yr adroddiad hwnnw os anfonwch ef ataf.

### Cyllideb Addysg The Education Budget

**Q5 Carl Sargeant:** Will the Minister make a statement on the overall funding that she has allocated to the education budget in the past year? (OAQ37836)

**Sue Essex:** The education and lifelong learning main expenditure group in 2004-05 is £1.227 billion. This represents an increase of 3.4 per cent, or £40 million, on 2003-04. The budget covers commitments made in ‘The Learning Country: A Comprehensive Education and Lifelong Learning Programme to 2010 in Wales’ and ‘Wales: A Better Country’. Added to that—and this is important—is the local government revenue settlement, through the local government MEG, which has put resources in for teachers’ pay, workload and pensions arrangements. Therefore, the figure goes up to around 5 per cent on average.

**Carl Sargeant:** I applaud the Government’s extra investment over the last year. Assembly investment is working to reverse the indifferent funding of past Tory administrations, which ran down our schools. I am pleased to see improvements in schools

**C5 Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyllid cyffredinol y mae hi wedi'i ddyrannu i'r gyllideb addysg yn ystod y flwyddyn a aeth heibio? (OAQ37836)

**Sue Essex:** Mae'r prif grŵp gwariant addysg a dysgu gydol oes yn 2004-05 yn £1.227 biliwn, sef cynnydd o 3.4 y cant, neu £40 miliwn, o gymharu â 2003-04. Mae'r gyllideb yn cynnwys ymrwymiadau a wnaed yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Rhaglen Addysg a Dysgu Gydol Oes Gynhwysfawr hyd 2010 yng Nghymru' a 'Cymru: Gwlad Well'. Yn ogystal â hynny—ac mae hyn yn bwysig—ceir setliad refeniw llywodraeth leol, drwy brif grŵp gwariant llywodraeth leol, sydd wedi neilltuo adnoddau ar gyfer trefniadau cyflogau, llwyth gwaith a phensiynau athrawon. Felly, mae'r ffigur yn codi i oddeutu 5 y cant ar gyfartaledd.

**Carl Sargeant:** Cymeradwyaf fuddsoddiad ychwanegol y Llywodraeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae buddsoddiad y Cynulliad yn llwyddo i ddadwneud effaith cyllido gwael y gweinyddiaethau Torïaid blaenorol, a amddifadodd ein hysgolion o adnoddau.

in my constituency. However, there are issues, and I look forward to our meeting on the existing education formula. Would you agree that responsible, round-table discussions are far more preferable than the slash and burn of Tory fantasy economics, which seek to make £20 billion cuts in public services?

**Sue Essex:** You are wise to remind us of the performance of former Tory Governments. We know that the Tories are not committed to public expenditure at the levels seen year in, year out since Gordon Brown was made Chancellor of the Exchequer. I compliment education authorities, schools, teachers and pupils across Wales on their improved performances. This is a combination of resources going in and a culture of trying to achieve, leading to great rewards for the pupils who take part. I am aware that we have had the discussion before—I see that Janet is ready to jump up—about the nature of the education formula. I am always willing to look at issues that concern people. However, I stress that local authorities can go above the standard spending assessment if that is what they want to do; we know that some local authorities choose to do so. If we believe in local democracy, we cannot stop authorities going above that. Therefore, you do get differences. I appreciate that that sometimes looks quite harsh, but a lot of it is down to a few local authorities pushing up their expenditure level.

**Janet Ryder:** I will take that further, because—as Carl is aware—Flintshire County Council has always languished at the bottom of the funding table for schools. Unfortunately, it has not put extra resources into education, and it has not sought to address the historical difference that we are always told about. I am glad that Carl has now come around to agreeing—and I hope that you will agree, Minister—that it is time that we had a round-table, all-party discussion on school funding, to see what truths and what myths lie behind this.

**Sue Essex:** Yes, there are a lot of myths. One point that I will make about Flintshire is that

Mae'n dda gennyf weld gwelliannau mewn ysgolion yn fy etholaeth i. Fodd bynnag, mae materion i'w trafod, ac edrychaf ymlaen at ein cyfarfod ar y fformiwlâu addysg bresennol. A gytunech fod trafodaethau cyfrifol o amgylch bwrdd yn llawer gwell na thoriadau hallt polisiau economaidd ffantasi'r Torïaid, sydd am dorri £20 biliwn o wariant mewn gwasanaethau cyhoeddus?

**Sue Essex:** Yr ydych yn ddoeth i'n hatgoffa o berfformiad y Llywodraethau Torïaid blaenorol. Gwyddom nad yw'r Torïaid yn ymrwymedig i wariant cyhoeddus ar y lefelau a welwyd flwyddyn ar ôl blwyddyn ers i Gordon Brown gael ei benodi'n Ganghellor y Trysorlys. Cymeradwyaf awdurdodau addysg, ysgolion, athrawon a disgyblion ledled Cymru ar eu perfformiad gwell. Daw o ganlyniad i gyfuniad o adnoddau yn cael eu rhoi ynghyd â diwylliant o geisio cyflawni, sy'n arwain at fuddiannau mawr i'r disgyblion sy'n cymryd rhan. Gwn inni gael y drafodaeth o'r blaen—gwelaf fod Janet ar fin neidio ar ei thraed—ynglŷn â natur y fformiwlâu addysg. Yr wyf bob amser yn fodlon edrych ar faterion sy'n achos pryder i bobl. Fodd bynnag, pwysleisiaf fod awdurdodau lleol yn gallu mynd y tu hwnt i'r asesiad o wariant safonol os dymunant; gwyddom fod rhai awdurdodau wedi dewis gwneud hynny. Os credwn mewn democratiaeth leol, ni allwn atal awdurdodau rhag mynd y tu hwnt i hynny. Felly, fe fydd gwahaniaethau. Deallaf fod hynny yn edrych yn eithaf hallt weithiau, ond rhyw lond dwrm o awdurdodau lleol yn codi lefel eu gwariant sy'n gyfrifol am hynny i raddau helaeth.

**Janet Ryder:** Parhaf â'r pwynt hwnnw oherwyddd—fel y gŵyr Carl—bu Cyngor Sir y Fflint bob amser ar waelod y tabl cylrido i ysgolion. Yn anffodus, nid yw wedi neilltuo adnoddau ychwanegol ar gyfer addysg, ac nid yw wedi ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaeth hanesyddol y sonnir amdano wrthynt drwy'r amser. Yr wyf yn falch bod Carl wedi cytuno o'r diwedda—a gobeithiaf y byddwch yn cytuno, Weinidog—ei bod yn bryd i bob plaid ddod ynghyd o amgylch y bwrdd i drafod cyllid ysgolion, i ganfod y gwiredbau a'r anwiredbau ynglŷn â hyn.

**Sue Essex:** Yn sicr, clywir llawer o anwiredbau. Un pwynt yr hoffwn ei wneud

its performance level is high. The trouble with tables is that, if you have 22—it is like the football league—you will have people at the top and people at the bottom. As far as I am concerned—[*Interruption.*] If you have tables of spend, unless everyone is hitting exactly the same level, you will have that gradation. That is the issue in life. What I am concerned about is ensuring that there are enough resources to ensure that the improvements in education that we are seeing can be sustained. Flintshire's record and performance are extremely good—I have looked at the education system outcomes there. I am never complacent—if there is a different or better way to allocate money then I will certainly sit down and discuss that. However, at the partnership council's consultative forum on finance last year, of which you were a member, Janet, we had this discussion, and I offered to do that very thing then, but people said, 'No, we'll leave it as it is'. That is how it goes.

**Peter Black:** Minister, will you consider working with the Minister for Education and Lifelong Learning to allocate funds for equality awareness education for those members of the Cardiff Labour Party who have been found to have issued racist literature during the local council elections on 10 June?

**Sue Essex:** I am not prepared to comment on that matter, as it has been before the Commission for Racial Equality. We are talking about education, and Carl's question was about overall funding for education within the system. As I have said, our record on this is extremely good and we will continue to deliver in this area.

**The Presiding Officer:** Order. I do not believe that there is ministerial responsibility for that matter. There is certainly responsibility somewhere, however.

#### **Gweithredu 'Cymru: Gwlad Well' The Delivery of 'Wales: A Better Country'**

**Q6 Lynne Neagle:** Will the Minister make a statement on how the Assembly Government's budget contributes to the delivery of 'Wales: A Better Country'? (OAQ37831)

yn glŷn â sir y Fflint yw bod ei berfformiad yn dda. Y drwg gyda thablau yw, os oes 22—mae'n debyg i'r cyngahrain pêl-droed—bydd rhai ar y brig a rhai ar y gwaelod. O'm rhan i—[*Torri ar draws.*] Os oes tablau o wariant, oni bai fod gwariant pawb yn union yr un peth, bydd graddau gwahanol o'r fath. Dyna beth sy'n digwydd mewn bywyd. Yr hyn sy'n bwysig imi yw sicrhau bod digon o adnoddau i sicrhau bod modd cynnal y gwelliannau a welwn ym maes addysg. Mae record a pherfformiad sir y Fflint yn hynod o dda—yr wyf wedi edrych ar ganlyniadau'r system addysg yno. Nid wyf byth yn hunanfodlon—os oes ffordd wahanol neu ffordd well o ddyrannu arian yna, yn sicr, byddaf yn fodlon trafod hynny. Fodd bynnag, yn fforwm ymgynghorol y cyngor partneriaeth ar gyllid y llynedd, yr oeddech yn aelod ohono, Janet, cawsom y drafodaeth hon, a chynigiais wneud yr union beth bryd hynny, ond dywedodd pobl, 'Na, nid ydym am ei wneud'. Fel yna y mae pethau.

**Peter Black:** Weinidog, a wnewch ystyried cydweithio â'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes i ddyrannu cyllid ar gyfer addysg ar ymwybyddiaeth o gydraddoldeb i'r aelodau hynny o Blaid Lafur Caerdydd a gyhoeddodd ddeunydd hiliol yn ystod yr etholiadau lleol i'r cyngor ar 10 Mehefin?

**Sue Essex:** Nid wyf yn barod i wneud sylwadau ar y mater hwnnw, gan ei fod wedi bod gerbron y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Trafod addysg yr ydym, a holodd Carl ynglŷn â chyfanswm y cyllid ar gyfer addysg yn y system. Fel y dywedais, mae ein record yn hyn o beth yn dda iawn, a byddwn yn parhau i gyflawni yn y maes hwn.

**Y Llywydd:** Trefn. Ni chredaf fod cyfrifoldeb gweinidogol dros y mater hwnnw. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb yn rhywle, yn sicr.

**C6 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae cyllideb Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu at y gwaith o weithredu 'Cymru: Gwlad Well'? (OAQ37831)

**Sue Essex:** The draft budget will reflect the work of the internal spending review that I announced last year to ensure that resources are aligned with our strategic priorities as set out in 'Wales: A Better Country'.

**Lynne Neagle:** Delivering social justice and combating poverty are two key aims in 'Wales: A Better Country'. If these are to be achieved, then Assembly Government policies such as the Wales spatial plan and future public investment must be targeted at assisting deprived communities such as those in the south Wales Valleys so that they, too, can share in Wales's future prosperity. What assurances can you give that the spreading prosperity agenda will lie at the heart of the Assembly Government's forthcoming budget and that future spending priorities will reflect the needs of deprived communities?

**Sue Essex:** You mentioned the Wales spatial plan in particular, and a component of that is to try to ensure that we improve prosperity and the quality of life for everyone in Wales. We must ensure that that is truly for everyone in Wales, and that means looking in particular at how we might achieve those objectives in areas such as the south Wales Valleys. In terms of the budget-setting exercise, 'Wales: A Better Country' has been the basis for informing that and, as you know, it is about mainstreaming social justice. That is being fed through the spending review and the way in which the budget is allocated.

To go back to the local government formula, there has been a complete review of how personal social services are funded, and deprivation is a strong component of that element of the formula.

**William Graham:** In 'Wales: A Better Country' there is a great emphasis on education. Are you sure that there is enough money allocated to education, particularly for the colleges of south-east Wales, to maintain the same vision?

**Sue Essex:** As you have heard me say, we have put in considerable sums of money in

**Sue Essex:** Bydd y gyllideb ddrafft yn adlewyrchu gwaith yr adolygiad mewnol o wariant a gyhoeddais y llynedd i sicrhau y pennir adnoddau yn unol â'n blaenoriaethau strategol fel y'u nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well'.

**Lynne Neagle:** Dau o nodau allweddol 'Cymru: Gwlad Well' yw cyflawnder cymdeithasol a brwydro yn erbyn tlodi. Er mwyn cyflawni'r rhain, yna rhaid targedu polisiau Llywodraeth y Cynulliad megis cynllun gofodol Cymru a buddsoddiad cyhoeddus yn y dyfodol at helpu cymunedau difreintiedig fel y rhai yng Nghymoedd y De fel y gallant hwythau hefyd fod yn rhan o ffyniant Cymru yn y dyfodol. Pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd i'r agenda lledaenu ffyniant ran ganolog yng nghyllid arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ac y bydd blaenoriaethau gwario yn y dyfodol yn adlewyrchu anghenion cymunedau difreintiedig?

**Sue Essex:** Bu ichi sôn am gynllun gofodol Cymru yn arbennig, a rhan o hynny yw ceisio sicrhau ein bod yn gwella ffyniant ac ansawdd bywyd i bawb yng Nghymru. Rhaid inni sicrhau bod hynny yn cynnwys pawb yng Nghymru, a golyga hynny ystyried yn arbennig sut y gallem gyflawni'r amcanion hynny mewn ardaloedd megis Cymoedd y De. O ran yr ymarfer i osod y gyllideb, bu 'Cymru: Gwlad Well' yn llywio hynny ac, fel y gwyddoch, ei nod yw prif ffrydio cyflawnder cymdeithasol. Adlewyrchir hynny yn yr adolygiad o wariant a'r ffordd y dyrennir y gyllideb.

Gan ddychwelyd i fformiwla llywodraeth leol, bu adolygiad cynhwysfawr o'r ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol personol eu hariannu, ac mae amddifadedd yn rhan amlwg o'r elfen honno o'r fformiwla.

**William Graham:** Yn 'Cymru: Gwlad Well', mae pwyslais mawr ar addysg. A ydych yn siŵr fod digon o arian wedi cael ei ddyrannu i addysg, yn enwedig ar gyfer colegau yn y De-ddwyrain, er mwyn cynnal yr un weledigaeth?

**Sue Essex:** Fel yr ydych wedi fy nghlywed yn dweud, yr ydym wedi neilltuo symiau

terms of school buildings. I will not answer your particular point on the colleges now, as I will need to follow that up. However, in terms of school buildings, there has been a big effort and a big commitment to upgrade the quality of those buildings, sometimes through renovation, but often through new build. That is the capital side. On revenue, we have put considerable investment into supporting teachers through the teachers' workload agreement and the pay threshold agreement to try to ensure that teachers feel that they have a secure future, that there is a quality environment and that teaching is a job that they want to be involved in. If you look at the figures on education, William, you will see that we are getting there. We are seeing some tremendous figures come through the schools, as well as through the colleges and the investment in further education.

**Helen Mary Jones:** Minister, nobody can deny that 'Wales: A Better Country' puts great emphasis on improving the health of the people of Wales, and neither can anybody deny that your Government has set a fair amount of money to make that happen. With regard to the £17 million spent on reorganisation, what are you doing, as the Finance Minister, to monitor whether that sum has actually delivered an improvement to the health of the people of Wales?

**Sue Essex:** The core of our reorganisation is bringing in local health boards as key commissioners, providers and representatives of the communities. Under the former health authority system, there was a mismatch between the public voice and public expectation and the managerial delivery of services. I do not know what you feel about that, but it was certainly the case in my area. The intention was there, but the public voice was not heard, and that accountability line was not there. That is why I have always supported the reorganisation and the regional commissioning that is part of it. Time will tell whether it is right, but I have been speaking to many local health boards and local authorities, and I feel positive about this agenda, because action at that local level is needed if you are to get the objectives of 'Health Challenge Wales' to bite in. That is where bringing local government in, particularly with its leisure, education and

mawr o arian ar gyfer adeiladau ysgolion. Nid atebaf eich pwynt penodol ar y colegau yn awr, gan y bydd angen imi ymchwilio i hynny. Fodd bynnag, o ran adeiladau ysgolion, bu ymdrech fawr ac ymrwymiad mawr i wella ansawdd yr adeiladu hynny, weithiau drwy adnewyddu, ond yn aml drwy godi adeilad newydd. Dyna'r sefyllfa o ran cyfalaf. O ran refeniw, yr ydym wedi buddsoddi symiau mawr mewn cefnogi athrawon drwy gytundeb llwyth gwaith yr athrawon a'r cytundeb trothwy cyflog i geisio sicrhau bod athrawon yn teimlo bod dyfodol sier ganddynt, bod amgylchedd o safon a bod addysgu yn swydd y maent am ymgymryd â hi. Os edrychwr ar y ffigurau addysg, William, fe welwch ein bod ar y trywydd cywir. Gwelwn rai ffigurau gwych yn dod drwy'r ysgolion, yn ogystal â'r colegau a thrwy'r buddsoddiad mewn addysg bellach.

**Helen Mary Jones:** Weinidog, ni all neb wadu bod 'Cymru: Gwlad Well' yn rhoi pwyslais mawr ar wella iechyd pobl Cymru, ac ni all neb wadu ychwaith fod eich Llywodraeth wedi pennu cyllid eithaf mawr i sicrhau bod hynny'n digwydd. O ran y £17 miliwn a wariwyd ar ad-drefnu, beth ydych yn ei wneud, fel y Gweinidog Cyllid, i fonitro a yw'r swm hwnnw wedi arwain at welliant i iechyd pobl Cymru mewn gwirionedd?

**Sue Essex:** Wrth wraidd ein hymarfer ad-drefnu mae cyflwyno byrddau iechyd leol fel comisiynwyr allweddol, darparwyr a chynrychiolwyr y cymunedau. O dan hen system yr awdurdodau iechyd, nid oedd y llais cyhoeddus yn cyfateb â disgwyliadau'r cyhoedd a'r ffordd yr oedd rheolwyr yn darparu gwasanaethau. Ni wn sut yr ydych yn teimlo am hynny, ond yn sicr yr oedd yn wir yn fy ardal i. Yr oedd y bwriad yno, ond ni chlywyd y llais cyhoeddus, ac nid oedd llinell atebolwydd o'r fath. Dyna pam yr wyf wedi cefnogi'r ymarfer ad-drefnu a'r broses o gomisiynu'n rhanbarthol sy'n rhan ohono o'r dechrau. Amser a ddengys a yw'n iawn, ond yr wyf wedi bod yn siarad â llawer o fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, a theimlaf yn gadarnhaol ynglŷn â'r agenda hon, oherwydd mae angen gweithredu ar y lefel leol honno er mwyn i amcanion 'Her Iechyd Cymru' ddechrau cael dylanwad. Dyna ble mae cynnwys llywodraeth leol, yn enwedig

housing arms, is important. That was not possible under the old arrangement.

yr adrannau hamdden, addysg a thai, yn bwysig. Nid oedd hynny'n bosibl o dan yr hen drefniant.

2.20 p.m.

### Anghenion Ardaloedd o Amddifadedd The Needs of Deprived Communities

**Q7 Lynne Neagle:** Will the Minister make a statement on how she takes into account the needs of deprived communities in Wales when formulating the overall budget? (OAQ37830)

**Sue Essex:** This is very much connected to my earlier answer. 'Wales: A Better Country' reflects many of our commitments to social justice and to eliminating deprivation and poverty.

**Lynne Neagle:** As you know, I have long-standing concerns about the impact that sparsity weightings in the local government formula have on deprived communities such as those in my local authority and other Valleys authorities. I remain concerned that there appears to be little in the way of robust evidence to justify this approach. My concerns have been reinforced by recent answers to written Assembly questions. Do you agree that if we are genuinely committed to social justice in Wales, we must ensure that spending takes place in the areas of greatest need? Will you consider this issue carefully with a view to ensuring that, where we give extra money to areas, it is always done on the basis of robust evidence?

**C7 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae'n ystyried anghenion ardaloedd o amddifadedd yng Nghymru wrth fformiwlleiddio'r gyllideb gyfan? (OAQ37830)

**Sue Essex:** Mae hyn yn gysylltiedig iawn â'm hateb cynharach. Mae 'Cymru: Gwlad Well' yn adlewyrchu llawer o'n hymrwymiadau i gyflawnader cymdeithasol ac i ddileu amddifadedd a thlodi.

**Lynne Neagle:** Fel y gwyddoch, yr wyf wedi bod yn pryderu ers amser ynglŷn ag effaith pwysoliadau ar gyfer ardaloedd tenau eu poblogaeth yn fformiwla llywodraeth leol ar gymunedau difreintiedig fel y rhai yn fy awdurdod lleol i ac mewn awdurdodau eraill yn y Cymoedd. Pryderaf o hyd nad oes fawr ddim tystiolaeth gadarn, mae'n debyg, i gyflawnhau'r ymagwedd hon. Cadarnheir fy mhryderon gan atebion diweddar i gwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad. A gytunwch fod rhaid inni, os ydym yn wir ymrwymedig i gyflawnader cymdeithasol yng Nghymru, sicrhau bod gwariant yn yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf? A ystyriwch y mater hwn yn ofalus gyda'r bwriad o sicrhau, lle yr ydym yn rhoi arian ychwanegol i ardaloedd, ein bod bob amser yn gwneud hynny ar sail tystiolaeth gadarn?

**Sue Essex:** I know that you and others feel strongly about this. The main issue is the way in which formula allocations take place. The big formula allocation is in the revenue support grant. You will know that when the Assembly was set up—I think that it was Peter Law who led on this—the formula was completely revamped and changed. Deprivation was brought in as a factor for the first time, and this element of sparsity was also introduced, although sparsity was also very much included by the previous regime in terms of how this was delivered. This year, we have commissioned a special study by

Gwn eich bod chi ac eraill yn teimlo'n gryf ynglŷn â hyn. Y prif fater yw'r ffordd y dyrennir arian o dan y fformiwla. Yn y grant cynnal refeniw ceir y dyraniaid mawr o dan y fformiwla. Fe wyddoch ar ôl sefydlu'r Cynulliad—credaf mai Peter Law a arweiniodd ar hyn—i'r fformiwla gael ei hailwampio a'i newid yn llwyr. Cyflwynwyd amddifadedd yn ffactor am y tro cyntaf, a chyflwynwyd yr elfen hon o ardaloedd tenau eu poblogaeth, er bod yr hen gyfundrefn hefyd yn rhoi lle amlwg iawn i deneurwydd poblogaeth o ran sut y darparwyd hyn. Eleni, yr ydym wedi comisiynu astudiaeth arbennig

Pion Economics to consider whether the sparsity element in the formula is right. It has considered the issue in terms of dispersal, which is not quite the same as sparsity. I think that sparsity is a somewhat misleading concept. This is about dispersal and how that adds to cost. In that sense, it applies equally in many of our Valley communities as it does in rural areas, as it is about the unit cost of delivering services. That report has been done. I will examine it, and I would be happy to share it with you.

gan Pion Economics i ystyried a yw'r elfen yn y fformiwla ar gyfer teneurwydd poblogaeth yn iawn. Mae wedi ystyried y mater o ran gwasgariad, nad yw'n hollol yr un peth â theneurwydd. Credaf fod teneurwydd poblogaeth yn gysyniad camarweiniol braidd. Mae a wnelo hyn â gwasgariad a sut y mae hynny yn ychwanegu at gostau. O ran hynny, mae yr un mor berthnasol mewn llawer o'n cymunedau yn y Cymoedd ag ydyw yn yr ardaloedd gwledig, am ei fod yn ymwneud â chost uned darparu gwasanaethau. Cwblhawyd yr adroddiad hwnnw. Byddaf yn ei ystyried, a byddwn yn fwya na pharod i'w rannu gyda chi.

**Lisa Francis:** With various changes to general practitioner out-of-hours services in rural areas, many of my constituents feel that the telephone triage system of diagnosis will deprive them of a medical doctor's opinion. That will, ultimately, lead to greater use of ambulance services. Do you have any plans for a contingency fund or to give any extra money to the ambulance services for this reason?

**Lisa Francis:** Yn sgîl amryw newidiadau i wasanaethau meddygon teuluol y tu allan i oriau mewn ardaloedd gwledig, teimla llawer o'm hetholwyr y bydd y system o roi diagnosis a blaenoriaethu cleifion dros y ffôn yn golygu na fyddant yn cael barn meddyg. Bydd hynny, yn y pen draw, yn arwain at ddefnydd helaethach o wasanaethau ambiwlans. A oes gennych unrhyw gynlluniau ar gyfer sefydlu cronfa wrth gefn neu roi arian ychwanegol i'r gwasanaethau ambiwlans am y rheswm hwn?

**Sue Essex:** There is a change in the GP contract and the out-of-hours services. It is too soon to say whether the consequences to which you allude will happen. If the local health board has done its commissioning correctly, and if that is set within the Wanless context, the idea of providing that advice and support is to cut back on inappropriate admissions to hospital services. Let us wait and see what the implications are. That possible consequence has not been flagged up with me so far, but I am sure that you and others will keep an eye on it and see where we are going.

**Sue Essex:** Mae contract y meddygon teulu a'r gwasanaethau y tu allan i oriau wedi cael eu newid. Mae'n rhy fuan dweud a fydd y canlyniadau y cyfeiriwch atynt yn digwydd. Os yw'r bwrdd iechyd lleol wedi comisiynu'n gywir, ac os yw hynny wedi'i osod yng nghyd-destun Wanless, y syniad o roi'r cyngor a'r cymorth hwnnw yw gostwng nifer y cleifion a gaiff eu derbyn i'r ysbyty yn amhriodol. Gadewch inni aros i weld beth fydd y goblygiadau. Nid oes neb wedi codi'r canlyniad posibl hwnnw gyda mi hyd yn hyn, ond yr wyf yn siŵr y byddwch chi ac eraill yn cadw llygad ar hynny i weld beth yw'r sefyllfa.

#### **Arian a Dderbyniwyd oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd Money Received from the European Union**

**Q8 Jenny Randerson:** Will the Minister explain how much of the Assembly's budget is money received from the European Union? (OAQ37867)

**Sue Essex:** European funding increases the total managed expenditure for the Assembly

**C8 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog egluro faint o gyllideb y Cynulliad sy'n arian a dderbyniwyd gan yr Undeb Ewropeaidd? (OAQ37867)

**Sue Essex:** Mae arian Ewropeaidd yn cynyddu cyfanswm gwariant y Cynulliad a

by £417.8 million for 2004-05. It is made up of £239.6 million of departmental expenditure limit and £178.2 million of annually managed expenditure of that, if you understand what I mean—I am sure that you do.

**Jenny Randerson:** European funding is important to the Assembly and to the people of Wales. At the Wales in a new Europe conference, held a few weeks ago, the Treasury spokesperson made it clear that the repatriation of European funds is still on the UK Government's agenda. The European Commission's spokesperson also made it clear that, under the Treasury proposals, Wales will miss out badly. What representations have you made to UK Government Ministers to persuade them that repatriation will not be good for Wales, and what meetings have you had with Government Ministers on this issue?

**Sue Essex:** In terms of whether it is good or not, if it happens, it will be a matter of considering the figures and how they affect Wales. You have had the First Minister's commitment that he will continue to argue for what he believes is best for Wales. I am aware that, at that seminar, there was a difference of opinion, but it is literally about knowing the details before we make a judgment on that. I know that the First Minister has made representations, but I made it clear in, I believe, my last meeting with Mr Boateng, and possibly in the one before that, how important this issue is to Wales, how important structural funds have been, and how important having proper regional funds, in whatever form they come, is for us in the future.

### **Tanwariant yng Nghyllideb y Llywodraeth Underspend in the Government's Budget**

**Q9 David Melding:** What was the level of underspend in the Welsh Assembly Government's budget in 2003-04? (OAQ37862)

**Sue Essex:** You have moved forward a year from your earlier question, David. Those figures are not yet available because it takes some time to judge it. I do not know whether you are aware of the nature of the business

reolir gan £417.8 miliwn ar gyfer 2004-05. Mae'n cynnwys £239.6 miliwn o derfynau gwariant adrannol ac o'r swm hwnnw £178.2 miliwn o wariant a reolir yn flynyddol, os ydych yn deall beth wyf yn ei feddwl—yr wyf yn siŵr eich bod chi'n deall.

**Jenny Randerson:** Mae arian Ewropeaidd yn bwysig i'r Cynulliad ac i bobl Cymru. Yng nghynhadledd Cymru mewn Ewrop newydd, a gynhalwyd ychydig wythnosau yn ôl, eglurodd llefarydd y Trysorlys fod ailwladoli cronfeydd Ewropeaidd yn dal i fod ar agenda Llywodraeth y DU. Eglurodd llefarydd y Comisiwn Ewropeaidd hefyd y bydd Cymru ar ei cholled yn fawr iawn o dan gynigion y Trysorlys. Pa sylwadau yr ydych wedi'u cyflwyno i Weinidogion Llywodraeth y DU i'w darbwyllo na fydd ailwladoli yn beth da i Gymru, a pha gyfarfodydd yr ydych wedi'u cael gyda Gweinidog y Llywodraeth ar y mater hwn?

**Sue Essex:** O ran pa un ai peth da ydyw ai peidio, os bydd yn digwydd, bydd yn fater o ystyried y ffigurau a sut y maent yn effeithio ar Gymru. Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo y bydd yn parhau i ddadlau dros yr hyn sydd orau i Gymru yn ei farn ef. Gwn, yn y seminar honno, fod gwahaniaeth barn, ond, yn llythrennol, rhaid inni gael y manylion cyn llunio barn ar hynny. Gwn fod y Prif Weinidog wedi cyflwyno sylwadau, ond eglurais, yn fy nghyfarfod diwethaf gyda Mr Boateng fe gredaf, ac yn yr un cyn hynny o bosibl, pa mor bwysig yw'r mater hwn i Gymru, pa mor bwysig fu cronfeydd strwythurol, a pha mor bwysig fydd cronfeydd rhanbarthol gwirioneddol inni yn y dyfodol, waeth beth fo'u ffurf.

**C9 David Melding:** Beth oedd lefel y tanwariant yng Nghyllideb 2003-04 Llywodraeth Cynulliad Cymru? (OAQ37862)

**Sue Essex:** Yr ydych wedi symud flwyddyn ymlaen o'ch cwestiwn cynharach, David. Nid yw'r ffigurau hynny ar gael eto am ei bod yn cymryd amser i ddod i gasgliad ar hyn. Ni wn a ydych yn ymwybodol o natur y busnes

now, but we use resource accounting, which any accountant, I am sure, will understand. It means that you spend a lot of time measuring your assets and what is left of them, so you cannot do it on only a cash difference between reserves. Therefore, I cannot answer your question at present, but I do not believe that it will be much different from what I have said previously.

**David Melding:** I seem to have been alpha and omega this afternoon as far as asking this question is concerned. However, I would hope that you will give the Assembly assurance that we will be looking at 99 per cent plus being expended so that we are distributing and using public money effectively.

**Sue Essex:** Absolutely. Just to reassure you, I have monthly meetings with our finance officials to consider how the budget is being spent. It is not a science; it is difficult to get a match, but we all want to see as close a match as possible, and everyone is in the process of doing that. Much of our money is distributed to organisations, so we do not have that kind of synergy from day to day.

**Jenny Randerson:** There are always underspends, and there are always worthy causes on which money can be spent relatively quickly. I urge you to consider the case of the rapid access breast clinic in Cardiff. One of my constituents was asked to wait 10 weeks before attending the clinic in July. I was then assured by the Minister for Health and Social Services that the matter was being urgently addressed. By September, another constituent was being told that she had 17 weeks to wait. That is a rapid deterioration in service. The local health board has indicated that lack of resources and lack of investment in capital equipment is the problem, and that an early injection of funds could make a rapid improvement. Will you give this matter due consideration?

**Sue Essex:** Underspends do not equate to money not being spent, because there are many other schemes out there that take that

bellach, ond yr ydym yn defnyddio dulliau cyfrifo ar sail adnoddau, y bydd unrhyw gyfrifydd, mae'n siŵr, yn eu deall. Golyga eich bod yn treulio llawer o amser yn mesur eich asedau a'r hyn sy'n weddill, felly nid oes modd gwneud hynny ar sail gwahaniaeth arian parod rhwng cronfeydd wrth gefn yn unig. Felly, ni allaf ateb eich cwestiwn ar hyn o bryd, ond ni chredaf y bydd yn wahanol iawn i'r hyn a ddywedais yn flaenorol.

**David Melding:** Ymddengys mai fi sy'n dechrau a diweddu y prynhawn yma o ran y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, gobeithiaf y byddwch yn rhoi sicrwydd i'r Cynulliad y bydd gwariant o fwy na 99 y cant er mwyn sicrhau ein bod yn dosbarthu ac yn defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol.

**Sue Essex:** Yn sicr. Er mwyn rhoi sicrwydd ichi, yr wyf yn cyfarfod â'n swyddogion cylid bob mis i ystyried sut y gwerir y gyllideb. Nid ymarfer gwyddonol mohono; mae'n anodd sicrhau bod gwariant yn cyfateb â'r gyllideb, ond mae pob un ohonom am eu gweld yn cyfateb mor agos â phosibl i'w gilydd, ac mae pawb yn y broses o wneud hynny. Dosberthir llawer o'n harian i sefydliadau nad oes gennym y math hwnnw o synergedd â hwy o ddydd i ddydd.

**Jenny Randerson:** Ceir tanwariant bob amser, ac mae bob amser achosion da y gellir gwario arian arnynt yn gymharol gyflym. Apelias arnoch i ystyried achos clinig y fron â mynediad cyflym yng Nghaerdydd. Gofynnwyd i un o'm hetholwyr aros 10 wythnos cyn mynychu'r clinig ym mis Gorffennaf. Yna cefais sicrwydd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr eid i'r afael â mater ar fyrdwr. Erbyn mis Medi, dywedwyd wrth fenyw arall yn fy etholaeth fod yn rhaid iddi aros 17 wythnos. Mae hynny'n waethygied sydyn yn y gwasanaeth. Mae'r bwrrdd iechyd lleol wedi nodi mai prinder adnoddau a dim buddsoddiad mewn offer cyfalaif yw'r broblem, ac y gellid gwella'r gwasanaeth yn gyflym pe rhoddid arian yn gynnar iddo. A wnewch roi ystyriaeth briodol i'r mater hwn?

**Sue Essex:** Nid yw tanwariant yn gyfystyr â pheidio â gwario arian, am fod llawer o gynlluniau eraill a all dderbyn yr arian

funding. Therefore, I would not want anyone to walk away with the idea that an underspend sits in a reserve and is not used at all; it is used. On the case that you mention, as a local constituency AM, I am also taking that up, and I share your concerns. I know that Jane Hutt is in contact with the trust, and there is a way forward.

hwnnw. Felly, nid wyf am i neb feddwl y rhoddir arian nas gwariwyd mewn cronfa wrth gefn ac na chaiff ei ddefnyddio byth; fe gaiff ei wario. O ran yr achos y cyfeiriwch ato, fel AC etholaethol yn lleol, yr wyf hefyd yn ymchwilio i'r mater hwnnw, a rhannaf eich pryderon. Gwn fod Jane Hutt mewn cysylltiad â'r ymddiriedolaeth, a bod ffordd ymlaen.

### Pŵer Benthyca'r Cynulliad The Borrowing Power of the Assembly

**Q10 Michael German:** What representations has the Minister made towards equalising the borrowing power of the Assembly with that of the putative Northern Ireland Assembly and the Scottish Parliament? (OAQ37851)

**Sue Essex:** Our borrowing powers are set out in the Government of Wales Act 1998. They are consistent with those available to the Scottish Parliament. Different borrowing arrangements apply in Northern Ireland because its public services are structured differently.

**Michael German:** Do you agree that it would be sensible to examine in detail the powers that the Northern Ireland Assembly has, when it is not suspended, to borrow money in order to invest for the future in structural programmes that it believes are essential to the redevelopment and regeneration of its country? Do you believe that such a proposal might be worth considering for Wales?

**Sue Essex:** I am aware of the situation in Northern Ireland because I have frequent discussions with a representative from the Northern Ireland Assembly. However, we receive our funding through the Barnett formula, which should enable us do the many things that we want to do. If you write to me with the details of where you think we can progress, I would be grateful.

**C10 Michael German:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno o ran sicrhau bod pŵer benthyca'r Cynulliad yn gyfartal ag eiddo Cynulliad tybiedig Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban? (OAQ37851)

**Sue Essex:** Nodir ein pwerau benthyca yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998. Maent yn gyson â'r hyn sydd ar gael i Senedd yr Alban. Ceir trefniadau benthyca gwahanol yng Ngogledd Iwerddon am fod gwasanaethau cyhoeddus wedi'u strwythuro'n wahanol.

**Michael German:** A gytunwch y byddai'n ddoeth astudio'n fanwl bwerau Cynulliad Gogledd Iwerddon, pan nad yw wedi'i atal, i fenthyc arian er mwyn buddsoddi at y dyfodol mewn rhaglenni strwythurol y cred eu bod yn hanfodol i ailddatblygu ac adfywio ei wlad? A gredwch y gellid bod yn fuddiol ystyried cynnig o'r fath i Gymru?

**Sue Essex:** Yr wyf yn ymwybodol o'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon am fy mod yn cael trafodaethau yn fynych gyda chynrychiolydd o Gynulliad Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, cawn ein harian drwy fformiwla Barnett, a ddylai fod yn fodd inni wneud y lliaws o bethau yr ydym am eu gwneud. Os ysgrifennwch ataf gyda manylion ynglŷn â sut y gallwn weithredu ar hyn yn eich barn chi, byddwn yn ddiolchgar.

2.30 p.m.

## Cyllid Ychwanegol ar gyfer y Portffolio Diwylliant Additional Funding for the Culture Portfolio

**C11 Owen John Thomas:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn cais am gyllid ychwanegol ar gyfer y portffolio diwylliant? (OAQ37857)

**Sue Essex:** I will submit the draft budget in October, so you will not have to wait long. I have discussed proposals for additional funding with the Minister for Culture, Welsh Language and Sport as part of my budget planning.

**Owen John Thomas:** Fel y gwyddoch, bu i Eisteddfod Genedlaethol Cymru dderbyn £100,000 yn llai y flwyddyn rhwng 1996 a 2003, sef cyfanswm o oddeutu £600,000 yn llai, nag a gafodd yn y gorffennol. A wnewch ystyried hynny a'r ffaith bod y Prif Weinidog wedi gwario £1.1 miliwn ar gomisiynu adroddiad comisiwn Richard a'i fod wedi penderfynu ei anwybyddu'n llwyr?

**Sue Essex:** He has not completely ignored the Richard commission report, although you may wish to spread that premise. The Labour Party held a successful full-day discussion on the report. Clearly, many people are engaged. I will discuss the eisteddfod with Alun Pugh as the Minister for Culture, Welsh Language and Sport.

**Q11 Owen John Thomas:** Has the Minister received a case for additional funding for the culture portfolio? (OAQ37857)

**Sue Essex:** Cyflwynaf y gyllideb ddrafft ym mis Hydref, felly ni fydd yn rhaid ichi aros yn hir. Yr wyf wedi trafod cynigion ar gyfer cyllid ychwanegol gyda'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon fel rhan o'm gwaith cynllunio ar y gyllideb.

**Owen John Thomas:** As you know, between 1996 and 2003 the National Eisteddfod of Wales received £100,000 less per year, which amounts to around £600,000 less, than it received previously. Will you consider that and the fact that the First Minister has spent £1.1 million on commissioning the Richard commission report and has decided to ignore it out of hand?

**Sue Essex:** Nid yw wedi anwybyddu adroddiad comisiwn Richard yn llwyr, er eich bod yn awyddus i ddweud hynny. Cynhaliodd y Blaid Lafur drafodaeth undydd lwyddiannus ar yr adroddiad. Yn amlwg, mae wedi ennyn diddordeb llawer o bobl. Trafodaf yr eisteddfod gydag Alun Pugh fel y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon.

## Siambrau Newydd y Cynulliad The New Assembly Chamber

**Q12 Mick Bates:** Will the Minister make a statement on progress made with the building work on the new Assembly Chamber over the summer recess? (OAQ37868)

**Sue Essex:** I am glad that we have reached this question as I am pleased to announce that work on the new Assembly building is progressing well. I refer the Member to the new Assembly building website, where progress updates are posted at the end of each month. Any Member who is interested—and that includes my Conservative colleagues—would be welcome to visit the building.

**C12 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y gwaith o adeiladu Siambrau newydd y Cynulliad yn ystod toriad yr haf? (OAQ37868)

**Sue Essex:** Yr wyf yn falch ein bod wedi cyrraedd y cwestiwn hwn oherwydd mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod y gwaith ar adeilad newydd y Cynulliad yn mynd rhagddo'n dda. Cyfeiriaf yr Aelod at wefan adeilad newydd y Cynulliad, lle y cyhoeddir y diweddaraf ar ddiwedd pob mis. Mae croeso i unrhyw Aelod sydd â diddordeb—ac mae hynny'n cynnwys fy nghyd-Aelodau Ceidwadol—ymweld â'r adeilad.

**Mick Bates:** Thank you for that encouraging answer. Unlike colleagues in the Conservative Party, I am looking forward to visiting the building. When will we be able to do that? I take particular interest in the renewable energy resources that will heat the building. Has any progress been made on the proposal to build a wind turbine on the Cardiff bay barrage to produce additional renewable energy for the building?

**Sue Essex:** If I give you an inch, you will take a mile, Mick—or half a mile, which is the distance from the building to the barrage. I am sure that any Member would be welcome to visit the building as long as they arrange it through the Assembly new building team.

We should be proud of the renewables and the sustainable resources used in the building. It is leading the way, although we do not know how successful it will be. I will pass on your query about the wind turbine to Andrew Davies, who is better judged to answer it.

**The Presiding Officer:** In order to be fair and balanced, I call on David Davies.

**David Davies:** Is there any truth in the rumour that I have heard that the new Assembly building website will be called wasteofmoney.com and will list all the schools, hospitals and other schemes that the money could have been spent on had it not been spent on that building?

**Sue Essex:** I think that it is extremely insulting of you, Presiding Officer, to refer to David Davies as being fair and balanced. You take that as an affront do you not, David? If you feel so strongly about this issue, you will feel unable to take up your place in the new building. The rest of us will be there, but I am not sure that you will be, for a variety of reasons. However, having stood for election and having been elected as the first-past-the-post Member for the Conservative Party, I would have thought that you would have a duty to your constituents to take up your place in the new building.

**Mick Bates:** Diolch i chi am yr ateb calonogol hwnnw. Yn wahanol i'n cyd-Aelodau yn y Blaid Geidwadol, edrychaf ymlaen at ymweld â'r adeilad. Pryd y gallwn wneud hynny? Mae gennyl ddiddordeb arbennig yn yr adnoddau ynni adnewyddadwy a fydd yn gwresogi'r adeilad. A wnaed unrhyw gynnydd i adeiladu tyrbin gwynt ar forglawdd bae Caerdydd i gynhyrchu rhagor o ynni adnewyddadwy i'r adeilad?

**Sue Essex:** Os rhoddaf i chi fodfedd, fe gymerwch chi filltir, Mick—neu hanner milltir, sef y pellter o'r adeilad i'r morglawdd. Yr wyf yn siŵr y byddai croeso i unrhyw Aelod ymweld â'r adeilad cyhyd ag y bônt yn trefnu hynny drwy dîm adeilad newydd y Cynulliad.

Dylem ymfalchiö yn yr ynni adnewyddadwy a'r adnoddau cynaliadwy a ddefnyddir yn yr adeilad. Mae'n arwain y gad, er na wyddom pa mor llwyddiannus fydd. Trosglwyddaf i'ch ymholiad ynglŷn â'r tyrbin gwynt i Andrew Davies, a fydd yn gallu ei ateb yn well.

**Y Llywydd:** Er mwyn bod yn deg ac yn gytbwys, galwaf ar David Davies.

**David Davies:** A oes unrhyw wirionedd yn y si a glywais mai enw gwefan adeilad newydd y Cynulliad fydd gwastraffarian.com ac y bydd yn rhestru'r holl ysgolion, ysbytai a chynlluniau eraill y gellid bod wedi gwario'r arian arnynt pe na bai wedi cael ei wario ar yr adeilad hwnnw?

**Sue Essex:** Credaf ei bod yn hynod sarhaus ichi, Lywydd, gyfeirio at David Davies fel un teg a chytbwys. Teimlwch fod hynny'n sarhad, onid ydych, David? Os teimlwch mor gryf ynglŷn â'r mater hwn, ni fyddwch yn teimlo y gallwch dderbyn eich lle yn yr adeilad newydd. Bydd y gweddill ohonom yno, ond nid wyf yn siŵr a fyddwch chi yno, am amryw resymau. Fodd bynnag, ar ôl sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad ac ar ôl cael eich ethol yn Aelod y cyntaf i'r felin dros y Blaid Geidwadol, byddwn wedi meddwl y byddech yn teimlo o dan ddyletswydd i'ch etholwyr i dderbyn eich lle yn yr adeilad newydd.

**Lorraine Barrett:** Thank you, Presiding Officer, for calling me in the spirit of fairness and balance. Minister, do you think that David Davies will have the nerve to take his seat in the new building? Do you also think that he will bring visitors from Monmouth to the new building, because I am sure that many of his constituents will be desperate to see this wonderful venture that will be available to us next year?

**Sue Essex:** The serious point, whether you agree or disagree with the construction of the new building, is that we have made a major commitment. It is a major piece of architecture that will stand the test of time, and people will look back to this period and say 'how wise they were to make this difficult decision'. It will be a flagship building for Wales.

**The Presiding Officer:** For the avoidance of doubt, the expression 'fair and balanced' referred to my practice of calling Members evenly, from all sides of the Chamber.

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

#### Datblygu Cynaliadwy (Targedau'r Llywodraeth) Sustainable Development (Government Targets)

**Q1 Michael German:** What progress has been made in meeting the Government's targets with regard to sustainable development? (OAQ37796)

**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** Our annual report on progress on sustainable development for 2003-04, which will be debated on 13 October alongside our new action plan, records favourable movement in at least five of our 12 adopted indicators.

**Michael German:** Will you comment on the renewable energy target of meeting 10 per cent of our energy needs from renewable sources by 2010? Given the slowness of development and the difficulties faced, how convinced are you that we will reach this target by 2010?

**Lorraine Barrett:** Diolch i chi, Lywydd, am fy ngalw er mwyn tegwch a chydbwysedd. Weinidog, a gredwch y bydd David Davies yn ddigon hyf i dderbyn ei le yn yr adeilad newydd? A gredwch hefyd y bydd yn dod ag ymwelwyr o Drefynwy i'r adeilad newydd, oherwydd yr wyf yn siŵr y bydd llawer o'i etholwyr yn hynod awyddus i weld y fenter wych hon a fydd ar gael inni y flwyddyn nesaf?

**Sue Essex:** Y pwynt difrifol yw, pa un a gytunwch â'r penderfyniad i godi adeilad newydd ai peidio, ein bod wedi gwneud ymrwymiad mawr. O ran pensaerniaeth, mae'n adeilad pwysig a ddeil brawf amser, a bydd pobl yn edrych yn ôl ar y cyfnod hwn ac yn dweud 'dyna ddoeth yr oeddent i wneud y penderfyniad anodd hon'. Bydd yn adeilad blaenllaw i Gymru.

**Y Llywydd:** Er mwyn osgoi amheuaeth, cyfeiriodd yr ymadrodd 'yn deg ac yn gytbwys' at fy arfer o alw Aelodau yn deg, o bob ochr o'r Siambra.

**C1 Michael German:** Pa gynnydd a wnaed o ran cyrraedd targedau'r Llywodraeth ar gyfer datblygu cynaliadwy? (OAQ37796)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae ein hadroddiad blynnyddol ar y cynnydd a wneir o ran datblygu cynaliadwy ar gyfer 2003-04, a drafodir ar 13 Hydref ochr yn ochr â'n cynllun gweithredu newydd, yn cofnodi cynnydd mewn o leiaf bump o'r 12 dangosydd a fabwysiadwyd gennym.

**Michael German:** A wnewch sylwadau ar y targed ynni adnewyddadwy o sicrhau bod 10 y cant o'n hanghenion ynni yn cael eu diwallu drwy ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010? O gofio pa mor araf y mae pethau'n datblygu a'r anawsterau a wynebir, pa mor argyhoedddeg ydych y byddwn yn cyrraedd y targed hwn erbyn 2010?

**Carwyn Jones:** I am confident that the target can be reached.

**Helen Mary Jones:** It is nice to see such confidence, Minister. I am not sure that it is universally shared, but let us hope that you are right. What are you doing to monitor the work of Assembly sponsored public bodies in terms of their delivery on the Government's sustainability target? What steps will you take to ensure that the bodies to be taken under direct Government control are taking their sustainable development responsibilities seriously and mainstreaming them into their work, not responding on a project-by-project basis?

**Carwyn Jones:** The scheme and the action plan will outline what ASPBs will need to do. As far as the future structure of ASPBs is concerned, our commitment to sustainable development will still be delivered by whatever structure succeeds them.

**Glyn Davies:** I listened carefully to your response to Mike German. Technical advice note 8 has been published and outlines how you intend to reach the 10 per cent target. There is a great deal of concern that there is too great a focus on one energy source, rather than on a wider range of energy sources. This is being driven by the 2010 deadline. Have you considered moving this deadline, so that you can achieve the 10 per cent target by focusing on a range of sources that require further development?

**Carwyn Jones:** The 2010 target stands. A number of energy sources can be used, but wind power stands out as being the most likely source, and wind farms can be placed in appropriate areas, as outlined in TAN 8. However, any support among Members for nuclear energy should be made clear.

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn hyderus y gellir cyrraedd y targed.

**Helen Mary Jones:** Mae'n braf gweld y fath hyder, Weinidog. Nid wyf yn siŵr a yw pawb yr un mor hyderus, ond gobeithio mai chi sy'n iawn. Beth ydych yn ei wneud i fonitro gwaith cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i gyrraedd targed y Llywodraeth o ran cynaliadwyedd? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau bod y cyrff y bwriedir i'r Llywodraeth eu rheoli'n uniongyrchol yn cymryd eu cyfrifoldebau o ran datblygu cynaliadwy o ddifrif ac yn eu prif ffrydio yn eu gwaith, yn hytrach nag ymateb fesul prosiect?

**Carwyn Jones:** Bydd y cynllun a'r cynllun gweithredu yn amlinellu'r hyn y bydd angen i CCNC ei wneud. O ran strwythur CCNC yn y dyfodol, mae'n dal yn wir y caiff ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy ei gyflawni drwy ba strwythur bynnag a fydd yn eu holynu.

**Glyn Davies:** Gwrandewais yn astud at eich ymateb i Mike German. Cyhoeddwyd nodyn cyngor technegol 8 ac mae'n amlinellu sut y bwriadwch gyrraedd y targed o 10 y cant. Mae cryn bryder y canolbwytir yn ormodol ar un ffynhonnell o ynni, yn hytrach nag ar ystod eang o ffynonellau ynni. Y dyddiad terfynol o 2012 sy'n gorfodi hyn. A ydych wedi ystyried newid y dyddiad terfynol hwn, fel y gallwch gyflawni'r targed o 10 y cant drwy ganolbwytio ar amrywiaeth o ffynonellau y mae angen eu datblygu ymhellach?

**Carwyn Jones:** Saif y targed o 2010 fel y mae. Gellir defnyddio nifer o ffynonellau ynni, ond mae ynni gwynt yn amlwg fel y ffynhonnell fwyaf tebygol, a gellir lleoli ffermydd gwynt mewn ardaloedd priodol, fel yr amlinellir yn nodyn cyngor technegol 8. Fodd bynnag, dylai unrhyw gefnogaeth i ynni niwclear ymhlið yr Aelodau gael ei nodi'n glir.

### Lleihau Gwastraff Plastig Reducing Plastic Waste

**C2 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar beth sydd yn cael ei

**Q2 Eleanor Burnham:** Will the Minister make a statement on what is being done to

wneud i leihau gwastraff plastig? reduce plastic waste? (OAQ37781)  
(OAQ37781)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn cefnogi cynlluniau i gasglu plastig a defnyddiau eraill i'w hailgylchu drwy gynnig grantiau penodol i awdurdodau lleol. Yr ydym hefyd yn cefnogi ymdrechion rhaglen weithredu'r cynllun gwastraff ac adnoddau ac Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer plastig wedi'i ailgylchu.

**Eleanor Burnham:** Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi cysylltu ag archfarchnadoedd i ofyn sut y maent yn bwriadu ymdrin â'r mater pwysig hwn oherwydd, ar gyfartaledd, mae pob person yng Nghymru yn defnyddio naw bag plastig yr wythnos. Sut y bydd eich Llywodraeth yn argymhell a chefnogi lleihau'r defnydd o fagiau plastig a hybu'r defnydd o fagiau a wneir o ddeunydd gwahanol megis papur?

2.40 p.m.

**Carwyn Jones:** Mae'r defnydd o fagiau papur yn gyffredin yn nifer o archfarchnadoedd Iwerddon. Yr wyf yn bwriadu trafod y mater hwn gyda'r archfarchnadoedd dros y misoedd nesaf. Mae rhai archfarchnadoedd eisoes yn casglu bagiau plastig i'w hailgylchu.

**Bryngle Williams:** Do you agree that Wales needs to look at the success of companies such as Nextech Ltd of Stafford, which developed the world's first plastic densifiers that reduce discarded plastic, including expanded polystyrene, by more than 85 per cent? In the light of this, will you instruct officials to bring forward a report to the Environment, Planning and Countryside Committee to discuss the way forward on this important matter?

**Carwyn Jones:** You have raised an interesting point. We are keen to learn from experiences elsewhere. I am now aware of this as a potential topic for discussion by the committee, and I look forward to hearing the question being raised.

**Janet Davies:** Like some other councils,

**Carwyn Jones:** The Assembly Government already supports the collection of plastic and other materials for recycling through specific grants to local authorities. We also support the work of the waste and resources action programme and the Wales Environment Trust in developing markets for the use of secondary plastic.

**Eleanor Burnham:** The Liberal Democrats have contacted supermarkets to ask how they intend to deal with this important issue because, on average, every person in Wales uses nine plastic bags each week. What plans does your Government have to recommend and support a reduction in the use of plastic bags and promote the use of bags made of alternative materials such as paper?

**Carwyn Jones:** The use of paper bags is already commonplace in many Irish supermarkets. I intend to discuss this issue with the supermarkets over the next months. Some supermarkets already collect plastic bags for recycling.

**Bryngle Williams:** A gytunwch fod angen i Gymru edrych ar lwyddiant cwmniau megis Nextech Ltd o Stafford, a ddatblygodd y periant cyntaf i ddwysâu plastig. Mae'n lleihau plastig a waredwyd, gan gynnwys polystyren ehangedig dros 85 y cant? Yng ngoleuni hyn, a ofynnwch i swyddogion gyflwyno adroddiad i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i drafod y ffordd ymlaen o ran y mater hwn?

**Carwyn Jones:** Yr ydych wedi codi pwyt diddorol. Yr ydym yn awyddus i ddysgu o brofiadau mewn mannau eraill. Yr wyf yn ymwybodol o hyn bellach fel pwnc posibl i'r pwylgor ei drafod, ac edrychaf ymlaen at glywed y cwestiwn yn cael ei godi.

**Janet Davies:** Fel rhai cynghorau eraill,

Plaid Cymru in Rhondda Cynon Taf County Borough Council introduced a kerbside collection scheme for plastic bottles, jars and other material. What discussions do you have with councils that have not yet introduced such a scheme, and with the present administration of Rhondda Cynon Taf County Borough Council to ensure that its scheme continues and grows?

**Carwyn Jones:** We are awaiting data from all local councils to see their progress in reaching the targets outlined in 'Wise about Waste'. When this is done, I will examine how we can encourage local authorities to look at best practice across the rest of Wales and learn from it.

cyflwynodd Plaid Cymru yng Nghyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf gynllun casglu o fin y ffordd ar gyfer poteli plastig, jariau a mathau eraill o ddeunydd. Pa drafodaethau yr ydych yn eu cael gyda chyngorau nad ydynt wedi cyflwyno cynllun o'r fath eto a chyda gweinyddiaeth bresennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i sicrhau bod ei gynllun yn parhau ac yn tyfu?

**Carwyn Jones:** Yr ydym yn aros am ddata oddi wrth bob cyngor lleol i weld faint o gynnydd a wneir ganddynt i gyrraedd y targedau a nodir yn 'Yn Gall gyda Gwastraff'. Ar ôl i hyn gael ei wneud, byddaf yn archwilio sut y gallwn annog awdurdodau lleol i edrych ar arfer gorau ar draws gweddill Cymru a dysgu oddi wrtho.

### **Ailgylchu o Fin y Ffordd Kerbside Recycling**

**Q3 Michael German:** Will the Minister make a statement on kerbside recycling? (OAQ37795)

**Carwyn Jones:** The Assembly waste strategy for Wales sets local authorities escalating targets so that by 2009-10 at least 40 per cent of municipal waste is recycled or composted.

**Michael German:** The figures that I have received from the Assembly Parliamentary Service show that there is a great difference in the way councils have implemented kerbside recycling. What measures are in place to ensure that this money, which is hypothecated for waste management, is used for a greater amount of recycling, in order to meet the targets that you have set?

**Carwyn Jones:** There are exemplar authorities which might be expected to be further ahead than other local authorities. We aim to use the examples set by those exemplar authorities to provide examples of good practice to other local authorities. I wish to encourage as much kerbside collection as possible, because the easier it is for people to recycle, the more recycling will take place.

**C3 Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gasglu gwastraff i'w ailgylchu o fin y ffordd? (OAQ37795)

**Carwyn Jones:** Mae strategaeth wastraff Cymru y Cynulliad yn nodi targedau cynyddol awdurdodau lleol nes y bydd o leiaf 40 y cant o wastraff trefol yn cael ei ailgylchu neu ei gompostio erbyn 2009-10.

**Michael German:** Dengys y ffigurau a gefais oddi wrth Wasanaeth Seneddol y Cynulliad fod gwahaniaeth mawr yn y ffordd y mae cyngorau wedi mynd ati i gasglu gwastraff i'w ailgylchu o fin y ffordd. Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau y caiff yr arian hwn, sydd wedi'i neilltuo'n arbennig ar gyfer rheoli gwastraff, ei ddefnyddio i ailgylchu mwy o wastraff, er mwyn cyrraedd y targedau a osodwyd gennych?

**Carwyn Jones:** Mae awdurdodau enghreifftiol y byddech yn disgwyli iddynt fod ar y blaen i awdurdodau lleol eraill. Ein nod yw defnyddio esiampl yr awdurdodau enghreifftiol hynny i roi enghreifftiau o arfer da i awdurdodau lleol eraill. Hoffwn annog cyngorau i gasglu cymaint o wastraff o fin y ffordd â phosibl, oherwydd po hawsaf fydd ailgylchu i bobl, y mwyaf o wastaff a gaiff ei ailgylchu.

**John Griffiths:** Newport Wastesavers is an exemplar in recycling. I know that you are aware of its activities. Are you aware of the latest developments whereby there will be a pilot scheme next month involving 9,000 houses across Newport having their recycling boxes collected weekly, whereas rubbish for landfill will be collected fortnightly? In about six weeks' time, a £1.5 million Cleanstream resource centre will be opened with a recycling depot, training workshops for socially excluded people, and an education centre. Do you agree that this shows the way forward?

**Carwyn Jones:** I have visited Newport Wastesavers. It is an excellent organisation. Increasing the frequency of kerbside collection is one way of encouraging recycling. If kerbside collection takes place infrequently, people would be less likely to include materials in the bags earmarked for recycling.

**Alun Cairns:** Minister, do you accept that it is far more expensive to introduce kerbside recycling in rural areas? The formula by which funding for local authorities is calculated for rural areas goes as the crow flies. Do you therefore accept that this type of service would need additional money from the Assembly for those local authorities that are largely rural?

**Carwyn Jones:** No local authorities—urban or rural—have communicated to me any difficulties that they have in terms of funding for kerbside collection.

**Carl Sargeant:** Will you join me in congratulating Flintshire County Council on its excellent recycling scheme? The recycling target is 15 per cent, and Flintshire County Council is currently exceeding that level, at 19 per cent.

**Carwyn Jones:** That is an excellent example of what can be done and I congratulate Flintshire County Council on its work so far.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 4 (OAQ37827) yn ôl.

**John Griffiths:** Mae Newport Wastesavers yn esiampl o ran ailgylchu. Gwn eich bod yn ymwybodol o'i weithgareddau. A wyddoch am y datblygiadau diweddaraf lle y cynhelir cynllun peilot y mis nesaf a fydd yn golygu casglu blychau ailgylchu bob wythnos o 9,000 o dai ar draws Casnewydd, tra'n casglu sbwriel ar gyfer safleoedd tirlenwi bob pythefnos? Ymhen rhyw chwe wythnos, bydd canolfan adnoddau Cleanstream gwerth £1.5 miliwn yn agor gyda depo ailgylchu, gweithdai hyfforddi i bobl sy'n cael eu hallgáu'n gymdeithasol, ynghyd â chanolfan addysg. A gytunwch fod hyn yn dangos y ffordd ymlaen?

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi ymweld â Newport Wastesavers. Mae'n sefydliad ardderchog. Mae casglu gwastraff o fin y ffordd yn amlach yn un ffordd o annog pobl i ailgylchu. Os mai anaml y cesglir gwastraff o fin o ffordd, mae pobl yn llai tebygol o gynnwys deunyddiau yn y cydynnau ar gyfer ailgylchu.

**Alun Cairns:** Weinidog, a dderbynwch ei bod yn llawer drutach cyflwyno cynllun casglu gwastraff i'w ailgylchu o fin y ffordd mewn ardaloedd gwledig? Mae'r fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo cyllid awdurdodau lleol ar gyfer ardaloedd gwledig yn mesur pellter fel yr hed y frân. Felly a dderbynwch y byddai angen i'r Cynulliad roi arian ychwanegol ar gyfer y math hwn o wasanaeth i'r awdurdodau lleol hynny sy'n wledig yn bennaf?

**Carwyn Jones:** Nid oes yr un awdurdod lleol—trefol neu wledig—wedi dweud wrthyf am unrhyw anawsterau sydd ganddynt o ran ariannu casglu gwastraff o fin y ffordd.

**Carl Sargeant:** A ymunwch â mi i longyfarch Cyngor Sir y Fflint ar ei gynllun ailgylchu ardderchog? Pymtheg y cant yw'r targed ailgylchu, ac mae Cyngor Sir y Fflint yn rhagori ar hynny, gan ailgylchu 19 y cant.

**Carwyn Jones:** Dyna enghraifft ardderchog arall o'r hyn y gellir ei wneud a llongyfarchaf Gyngor Sir y Fflint ar ei waith hyd yn hyn.

**The Presiding Officer:** Question 4 (OAQ37827) has been withdrawn.

## Rheoli Fermin ar Ffermydd Vermin Control on Farms

**Q5 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on vermin control on farms? (OAQ37826)

**Carwyn Jones:** Vermin control on farms is a matter for farmers.

**Mark Isherwood:** I hope that we can develop that a little. What representations have you made to your Westminster colleagues to champion the agreement of the Burns inquiry with the Farmers Union of Wales, namely that there is no suitable alternative to using dogs when it comes to controlling predatory foxes, particularly in the Welsh uplands?

**Carwyn Jones:** None. It is not a devolved matter.

**Alun Ffred Jones:** Mae amaeth yn rhan o’ch cyfrifoldebau ac yr ydych yn delio’n ddyddiol gyda ffermwyr a’u hundebau, felly pa gyngor y byddwch yn ei roi i ffermwyr mynydd Cymru ar reoli llwynogod oni chânt ddefnyddio cŵn i’w codi o fforestydd a thir gwylt? Mae honno’n broblem ymarferol a bydd yn rhaid i chi, fel penneth y gwasanaeth amaethyddol yng Nghymru, fod yn barod i’w thrafod gyda’r ffermwyr. A ydych o blaid cyfaddawd Prif Weinidog y DU i roi trwyddedau i rai helfeydd?

**Carwyn Jones:** Deallaf fod problemau gyda llwynogod mewn rhai rhannau o Gymru ac y mae’n gyfrifoldeb ar Lywodraeth y Cynulliad ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i gynghori ffermwyr beth bynnag am ganlyniad y Mesur gerbron San Steffan ar hyn o bryd.

**Lorraine Barrett:** Do you acknowledge that many people, like me, do not consider foxes to be vermin?

**Carwyn Jones:** Yes.

**Kirsty Williams:** Foxes are not the only vermin that need to be controlled on farms across Wales. Badgers also need to be controlled. How many badger control

**C5 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar reoli fermin ar ffermydd? (OAQ37826)

**Carwyn Jones:** Mater i ffermwyr yw rheoli fermin ar ffermydd.

**Mark Isherwood:** Gobeithiaf y gallwn ymhelaethu ar hynny. Pa sylwadau yr ydych wedi’u cyflwyno i’ch cyd-aelodau yn San Steffan i hybu cytundeb ymchwiliad Burns gydag Undeb Amaethwyr Cymru, sef nad oes unrhyw ddull addas arall ac eithrio defnyddio cŵn i reoli llwynogod ysglyfaethus, yn enwedig ar uwchdiredd Cymru?

**Carwyn Jones:** Dim. Nid mater datganoledig ydyw.

**Alun Ffred Jones:** Agriculture is one of your responsibilities and you deal with farmers and their unions daily, therefore, what advice will you give Welsh hill farmers on controlling foxes if they are not allowed to use dogs to flush them out of forests and uncultivated land? That is a practical problem and you, as head of the agricultural service in Wales, will have to be prepared to discuss that with the farmers. Are you in favour of the Prime Minister’s compromise to license some hunts?

**Carwyn Jones:** I understand that there are problems with foxes in some parts of Wales and the Department for Environment, Food and Rural Affairs and the Assembly Government have a responsibility to advise farmers regardless of the result of the Bill currently before Parliament.

**Lorraine Barrett:** A gydnabyddwch fod llawer o bobl, fel minnau, o’r farn nad fermin yw llwynogod?

**Carwyn Jones:** Cydnabyddaf hynny.

**Kirsty Williams:** Nid llwynogod yw’r unig fermin y mae angen eu rheoli ar ffermydd ledled Cymru. Mae angen rheoli moch daear hefyd. Faint o drwyddedau rheoli moch daear

licences have been issued?

**Carwyn Jones:** I will write to you with an answer. It is important to remember that the definition of vermin varies according to the individual's perception of the animal.

a roddwyd?

**Carwyn Jones:** Ysgrifennaf atoch gyda'r ateb. Mae'n bwysig cofio bod y diffiniad o fermin yn amrywio yn ôl canfyddiad yr unigolyn o'r anifail.

### Gwrychoedd Uchel High Hedges

**Q6 Sandy Mewies:** Will the Minister make a statement regarding the implementation of Part 8 of the Anti-social Behaviour Act relating to high hedges? (OAQ37774)

**Carwyn Jones:** We have consulted on draft regulations needed to implement the new powers to handle complaints about nuisance high hedges. I anticipate that the complaints system will be in place before the end of this year.

**Sandy Mewies:** It is unfortunate that the problem of high hedges has come to the point where legislation is required, but it is a fact that many of us will have a great deal of case work involving high hedges. Could you, with local government, ensure, following the enactment of these new powers, that this matter will be widely publicised because many people are waiting to take action on this?

**C6 Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglych gweithredu Rhan 8 y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â gwrychoedd uchel? (OAQ37774)

**Carwyn Jones:** Yr ydym wedi ymgynghori ar y rheoliadau drafft sydd eu hangen i weithredu'r pwerau newydd i ymdrin â chwynion ynglŷn â gwrychoedd uchel sy'n niwsans. Rhagwelaf y bydd y system gwyno ar waith cyn diwedd y flwyddyn.

**Sandy Mewies:** Mae'n anffodus bod y broblem o ran gwrychoedd uchel wedi cyrraedd y fath sefyllfa lle mae angen deddfwriaeth, ond y gwir yw y bydd llawer ohonom yn cael cryn dipyn o waith yn ymwneud â gwrychoedd uchel. A allech chi, gyda llywodraeth leol, sicrhau, ar ôl i'r pwerau newydd hyn ddod i rym, y caiff y mater hwn lawer o gyhoeddusrwydd oherwydd mae llawer o bobl yn aros i gymryd camau ar hyn?

**Carwyn Jones:** I entirely agree. I have a caseload along the same lines. You are right to say that many people are waiting for the outcome of the legislative process before taking action and it will be important to publicise that when the law changes.

**Carwyn Jones:** Cytunaf yn llwyr. Mae gennylf faich achosion tebyg. Yr ydych yn llygad eich lle i ddweud bod llawer o bobl yn aros am ganlynaid y broses ddeddfwriaethol cyn gweithredu ac y bydd yn bwysig rhoi cyhoeddusrwydd i hynny pan fydd y gyfraith yn newid.

**Laura Anne Jones:** I believe that it is recommended that any work on hedges should not take place between March and August owing to the need to protect nesting birds. Could high hedge regulations contravene any wildlife protection legislation?

**Laura Anne Jones:** Credaf yr argymhellir na ddylid gwneud unrhyw waith ar wrychoedd rhwng Mawrth ac Awst oherwydd yr angen i ddiogelu adar sy'n nythu. A allai rheoliadau gwrychoedd uchel fynd yn groes i unrhyw ddeddfwriaeth i ddiogelu bywyd gwylt?

**Carwyn Jones:** No, we do not anticipate that.

**Carwyn Jones:** Na, nid ydym yn rhagweld y bydd hynny yn digwydd.

### Taliadau'r Cynllun Dros-30-mis The Over-30-month Scheme Payments

**C7 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynigion arfaethedig DEFRA ynghylch taliadau o fewn y cynllun dros-30-mis? (OAQ37789)

**Carwyn Jones:** Y mae DEFRA wedi trafod y cynnig i ddiddymu'r iawndal ar fustych a heffrod a fydd yn cael eu cynnwys o fewn y cynllun gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant amaeth mewn dau gyfarfod.

**Elin Jones:** A gytunwch ei bod yn annheg fod DEFRA yn ystyried torri'r taliadau i ffermwyr ar y cynllun hwn tra'n parhau i wrthod codi'r gwaharddiad arno, er nad oes bellach sail wyddonol, yn ôl yr Asiantaeth Safonau Bwyd, i gadw'r gwaharddiad hwn ar y cynllun 30-mis?

**Carwyn Jones:** Mae'r dduau beth yn wahanol. Rhaid i ni ystyried yn fanwl sut i godi'r gwaharddiad yn y lle cyntaf er mwyn sicrhau y caiff hyder prynwyr a'r cyhoedd ei gynnal. Y mae data ar gael sy'n dangos nad yw'r taliadau'n effeithiol o ran bustych a heffrod.

**Bryngle Williams:** Do you agree that many farmers are experiencing a problem with regard to heifers and getting them into calf? Farmers have cattle on their hands with which they can do nothing because they have gone over 30-months. That is why the scheme must be considered carefully.

**Carwyn Jones:** The OTMS data with regard to heifers, particularly with late-finished animals, indicates that the majority of heifers being introduced into the scheme are failed breeders, and that is not necessarily what the scheme is meant to cover.

**Mick Bates:** Will you clarify the position on the funding released by the reduction in the age limit in the 30-month scheme, which will be used for the fallen stock scheme? How long will that money be available from the OTMS for the fallen stock scheme?

**Carwyn Jones:** That matter has not been under discussion and no time limit has been imposed.

**Q7 Elin Jones:** Will the Minister make a statement on DEFRA's proposals regarding payments within the over-30-month scheme? (OAQ37789)

**Carwyn Jones:** DEFRA has discussed the proposal to zero rate compensation for steers and heifers entering the scheme with representatives of the agriculture industry at two meetings.

**Elin Jones:** Do you agree that it is unfair for DEFRA to consider cutting payments to farmers on this scheme while continuing to refuse to lift the ban on the scheme even though there is no longer any scientific basis, according to the Food Standards Agency, to retain the ban on the 30-month scheme?

**Carwyn Jones:** The two things are different. We have to look in detail at how to lift the ban in the first instance so that we can ensure that consumer and public confidence is maintained. There is data available showing that the payments are not effective in terms of steers and heifers.

**Bryngle Williams:** A gytunwch fod llawer o ffermwyr yn cael problem o ran heffrod a sicrhau eu bod yn gyflo? Mae ffermwyr yn magu gwartheg na allant wneud dim gyda hwy am eu bod yn hŷn na 30 mis. Dyna pam y mae'n rhaid ystyried y cynllun yn ofalus.

**Carwyn Jones:** Dengys data o'r Cynllun Dros Dri Deg Mis o ran heffrod, yn enwedig anifeiliaid sydd wedi'u pesgu'n hwyr, fod y rhan fwyaf o heffrod a gaiff eu cyflwyno i'r cynllun yn anifeiliaid sydd wedi methu â bridio, ac nid dyna beth y dylai'r cynllun ei gwmpasu o reidrwydd.

**Mick Bates:** A eglurwch y sefyllfa ynglŷn â'r arian a ryddheir drwy leihau'r terfyn oedran yn y cynllun tri deg mis, a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer y cynllun stoc marw? Am faint y bydd yr arian hwnnw ar gael o'r cynllun tri deg mis i'r cynllun stoc marw?

**Carwyn Jones:** Nid yw'r mater hwnnw wedi cael ei drafod ac ni osodwyd terfyn amser.

2.50 p.m.

### Targedau Ailgylchu Cyngor Sir Penfro Pembrokeshire County Council Recycling Targets

**Q8 Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** Will the Minister report on the progress of Pembrokeshire County Council towards meeting its recycling targets? (OAQ37806)

**Carwyn Jones:** The indications are that Pembrokeshire achieved a target of 15.45 per cent on recycling and composting in 2002-03. Indicative performance indicator figures for 2003-04 will be available soon.

**Tamsin Dunwoody-Kneafsey:** I am sure you agree that Pembrokeshire deserves to be congratulated on achieving and exceeding its targets. It has some good ongoing projects, including roadside kerb collection, which it will extend to 40 per cent of all households by 2005. The purpose of recycling, as I am sure you will agree, is to reduce landfill, and one of the problem areas is the recycling of tyres. Have you investigated the microwave process of recycling tyres currently in use in Australia? We recycle tyres in Pembrokeshire, but we do not remove the metal, as I am sure you aware. The metal then goes to landfill, which is not a particularly helpful exercise. Will you report on that?

Yr oedd sylwadau Mike German yn seiliedig ar ragdybiaeth hurt; ceisiodd honni eich bod rywsut yn torri addewidion, os oeddech yn cyflwyno cyfres o addewidion ar gyfer tymor o bedair blynedd ond nad oeddech yn eu cyflawni yn ystod y 12 neu'r 18 mis cyntaf. Nid yw hynny'n wir o gwbl. Soniodd am bresgripsiynau am ddim: bu inni rewi taliadau presgripsiwn yn y flwyddyn gyntaf a byddwn yn gostwng y taliadau hynny ddydd Gwener. Dyna'r gostyngiad cyntaf ers 40 mlynedd, a gostyngiad cyffredinol ydyw. Credaf mai David Melding a ddywedodd nad yw'n cymeradwyo hynny, ond wrth siarad ddoe am yr angen i sierhau cydbwysedd synhwyrol rhwng budd-daliadau yn seiliedig ar brawf modd a budd-daliadau a roddir i bawb, nid oedd neb, fe gredaf, o'r blaid Geidwadol yn anghytuno â'r safbwyni hwnnw. Gallwch bob amser sôn am yr un budd-dal a roddir i bawb a dweud y dylai fod yn seiliedig ar brawf modd, fel y mae ar hyn o bryd, ond wedyn rhaid ichi ddweud eich bod yn gwrthwynebu pob budd-dal o'r fath. Nid ydym yn eu gwrthwynebu; credwn ei bod yn iawn cael cymysgedd synhwyrol. Yng nghyd-destun economi Cymru ac iechyd Cymru, mae hwn yn bolisi da, a bydd y broses o ddileu taliadau presgripsiwn fel budd-dal yn y gwaith o gymorth mawr i helpu pobl i gael gwaith, weithiau mewn swyddi â chyflwyno ar gyfer yr henoed, ar ôl y polisi llwyddiannus ar gyfer plant. Gallech ddweud bod hynny'n fudd-dal am ddim, ond mae'n bwysig iawn o ran ei ganlyniadau iechyd.

Soniodd pobl am y gwasanaeth iechyd, ac maent yn dweud y drefn o hyd bod yn rhaid ystyried bod y gwasanaeth iechyd yng Nghymru mewn cyflwr gwaeth na'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr, beth bynnag fo'r ffeithiau. Maent yn anwybyddu'r ffaith mai gofal sylfaenol yw 90 y cant o'r cysylltiadau â'r gwasanaeth iechyd. Yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau mynediad i'r

compared with 48 hours in England. I mentioned the huge improvements in cardiac surgery. Brynle mentioned dangerous levels. Yes, they were dangerous levels when there were long cardiac surgery waiting lists, but they are not now. People no longer die as a matter of routine on cardiac surgery waiting lists as was the case when we took over five and a half years ago. I mentioned the infant mortality rate—no-one in the opposition can cope with good news about the health service in Wales. I mentioned that, when we took over, the infant mortality rate was higher than elsewhere in Britain, and now it is much lower.

We mentioned the GCSE pass rates, which used to be poorer in Wales, but which are now higher. We have improved GCSE pass rates A to C, which is the normal way of measuring relative education success, and you cannot cope. None of you mentions it. You cannot cope with the fact that something is going better in Wales than elsewhere as it is not your job, as Helen Mary openly said, to go forward. That is, you refuse any reference to any good news and just try to concentrate on the bad news. Occasionally, however, you must have some respect for the facts. Lorraine mentioned the safer communities fund, the community safety partnerships, and the success of Operation Tarian. These are all major achievements that are under the umbrella of the crime fighting fund, and they are of huge consequence to people.

Rhodri Glyn, you mentioned waiting lists for surgery. The waiting list issue is not where we want it to be, but you must remember that that is only one third of the hospital side of the national health service. Two thirds are in the accident and emergency side, where we do extremely well on all the comparisons.

**Nick Bourne:** Let me take you back to waiting lists. I know that you think that it is just the opposition going on about the long waiting lists, but take what is being said by

gwasanaethau gofal sylfaenol yn y GIG o fewn 24 awr, o gymharu â 48 awr yn Lloegr. Soniais am y gwelliannau mawr o ran llawdriniaeth ar y galon. Soniodd Brynle am lefelau peryglus. Ie, cafwyd lefelau peryglus pan oedd rhestrau aros hir am lawdriniaeth ar y galon, ond nid ydynt yn beryglus yn awr. Nid yw pobl yn marw mwyach fel mater o drefn ar restrau aros am lawdriniaeth ar y galon fel oedd yn wir pan ddaethom i rym bum mlynedd a hanner yn ôl. Soniais am y gyfradd marwolaethau babanod—ni all neb yn y gwrthbleidiau ymdopi â'r newyddion da ynghylch y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Soniais am y ffaith bod y gyfradd marwolaethau babanod yn uwch nag mewn mannau eraill o Brydain, pan ddaethom i rym, ac mae'n llawer is erbyn hyn.

Bu ichi sôn am gyfraddau llwyddo mewn TGAU, a arferai fod yn waeth yng Nghymru, ond sy'n uwch erbyn hyn. Yr ydym wedi gwella cyfraddau graddau A i C TGAU, sef y ffordd arferol o fesur llwyddiant cymharol mewn addysg, ac ni allwch ymdopi â hynny. Nid oes neb ohonoch yn cyfeirio at hynny. Ni allwch ymdopi â'r ffaith bod rhywbeth yn well yng Nghymru nag mewn mannau eraill am nad eich gwaith chi, fel y dywedodd Helen Mary a hynny'n agored, yw symud ymlaen. Hynny yw, yr ydych yn gwrthod cyfeirio at unrhyw newyddion da ac yn canolbwytio ar y newyddion drwg yn unig. O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, rhaid ichi barchu'r ffeithiau. Soniodd Lorraine am y gronfa cymunedau diogelach, y partneriaethau diogelwch cymunedol, a llwyddiant Ymgyrch Tarian. Mae pob un o'r cyflawniadau pwysig hyn o dan ymbarél y gronfa ymladd troseddau, ac maent o bwys mawr i bobl.

Rhodri Glyn, bu ichi grybwyl rhestrau aros ar gyfer llawdriniaeth. Nid yw'r rhestrau aros fel yr hoffem iddynt fod, ond rhaid ichi gofio mai dim ond traean o waith ysbytai'r gwasanaeth iechyd gwladol yw hynny. Mae dwy ran o dair mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, lle y gwnawn yn dda iawn o ran yr holl gymariaethau.

**Nick Bourne:** Gadewch imi droi yn ôl at restrau aros. Gwn eich bod o'r farn bod y gwrthbleidiau yn hoff o siarad am y rhestrau aros hir, ond gwrandewch ar yr hyn a

Labour MPs—perhaps understandable because there is a general election just around the corner—about the state of the health service and the way in which it is run. Take what Kim Howells and Jon Owen Jones have been saying. Do you not accept that having one in 10 people in Wales on a waiting list is completely unacceptable and that you really must address that?

**The First Minister:** Indeed, and that is why we have addressed it, and why the 18-month second offer guarantee scheme has been introduced and why the 12-month second offer guarantee scheme will come in. It is not 12 months or 18 months where we have shorter targets, but four months for cataracts, which is better than in England, even though you never admit, concede or refer to it. Six months is the maximum time for angiography, while it is 10 months—shortly to be eight months—for cardiac operations, and 18 months for orthopaedics and other services. However, you will simply never accept that the position of the health service in Wales can be anything other than a case of the grass being greener on the English side of the border.

Our achievements in getting a national children's hospital for Wales started—which will open its doors to patients early next year—is a great achievement, bearing in mind that it was the Tories who closed the only children's hospital that we ever had in Wales.

It is also important that we recognise just how much progress there has been in areas right across the board in public services—again, the Tories do not respond to it—namely the 66 per cent improvement in the number of people who are following modern apprenticeships, which is part of public service delivery. Those are facts that you cannot get away from. That is why I am proud to present this First Minister's report to the Assembly and ask the Assembly to reject all the opposition amendments.

*Gwelliant 1: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 30.  
Amendment 1: For 29, Abstain 0, Against 30.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

ddywedir gan ASau Llafur—efallai y gellir deall hyn oherwydd cynhelir etholiad cyffredinol yn fuan—am gyflwr y gwasanaeth iechyd a'r ffordd y caiff ei redeg. Gwrandewch ar yr hyn a ddywedwyd gan Kim Howells a Jon Owen Jones. Oni dderbyniwch fod y ffaith bod un o bob 10 unigolyn yng Nghymru ar restr aros yn holol annerbyniol a bod yn rhaid ichi ymdrin â hynny mewn gwirionedd?

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, a dyna pam yr ydym wedi ymdrin â hynny, a pham y cyflwynwyd cynllun gwarantu'r ail gynnig o 18 mis a pham y caiff cynllun gwarantu'r ail gynnig o 12 mis ei gyflwyno. Nid 12 mis na 18 mis yw'r amserau aros lle mae gennym dargedau byrrach, ond pedwar mis ar gyfer cataractau, sy'n well nag yn Lloegr, er nad ydych byth yn cyfaddef hynny nac yn cyfeirio ato. Chwe mis yw'r cyfnod hwyaf y mae'n rhaid aros am angiogram, tra 10 mis yw'r amser aros—bydd yn wyth mis cyn bo hir—ar gyfer llawdriniaeth ar y galon, a 18 mis ydyw ar gyfer orthopedeg a gwasanaethau eraill. Fodd bynnag, o ran y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, bydd pobl bob amser yn credu bod pethau'n well yn Lloegr, hynny yw, man gwyn man draw.

Mae'r hyn a gyflawnwyd gennym o ran dechrau ar y gwaith o gael ysbty plant cenedlaethol i Gymru—a fydd yn agor ei ddrysau i gleifion ar ddechrau'r flwyddyn nesaf—yn gamp fawr, o gofio mai'r Torïaid a gaeodd yr unig ysbty plant a fu gennym erioed yng Nghymru.

Mae'n bwysig hefyd ein bod yn cydnabod faint o gynnydd sydd wedi'i wneud mewn gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol—unwaith eto, nid yw'r Torïaid yn ymateb i hynny—sef y gwelliant o 66 y cant yn nifer y bobl sy'n dilyn prentisiaethau modern, sy'n rhan o ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Dyna ffeithiau na allwch eu hanwybyddu. Dyna pam yr wyf yn falch o gyflwyno adroddiad y Prif Weinidog i'r Cynulliad a gofynnaf i'r Cynulliad wrthod pob un o welliannau'r gwrthbleidiau.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:

The following Members voted for:

Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Cairns, Alun  
 Davies, David  
 Davies, Glyn  
 Davies, Janet  
 Davies, Jocelyn  
 Francis, Lisa  
 German, Michael  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Elin  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Jones, Laura Anne  
 Lloyd, David  
 Marek, John  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Thomas, Owen John  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Brynle  
 Williams, Kirsty  
 Wood, Leanne

The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Butler, Rosemary  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Andrew  
 Dunwoody-Kneafsey, Tamsin  
 Essex, Sue  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Idris Jones, Denise  
 James, Irene  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Law, Peter  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Catherine  
 Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
 Amendment defeated.*

Ni ddetholwyd gwelliant 2.  
 Amendment 2 not selected.

*Gwelliant 3: O blaid 18, Ymatal 11, Yn erbyn 30.  
 Amendment 3: For 18, Abstain 11, Against 30.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Burnham, Eleanor  
 Davies, Janet  
 Davies, Jocelyn  
 German, Michael  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Elin  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lloyd, David  
 Marek, John  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Thomas, Owen John  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Kirsty  
 Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Butler, Rosemary  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Andrew  
 Dunwoody-Kneafsey, Tamsin  
 Essex, Sue  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Idris Jones, Denise  
 James, Irene  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Law, Peter

Lewis, Huw  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Catherine  
 Thomas, Gwenda

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
 The following Members abstained:

Bourne, Nick  
 Cairns, Alun  
 Davies, David  
 Davies, Glyn  
 Francis, Lisa  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Jones, Laura Anne  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan  
 Williams, Brynle

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
 Amendment defeated.*

*Gwelliant 4: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 30.  
 Amendment 4: For 29, Abstain 0, Against 30.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Cairns, Alun  
 Davies, David  
 Davies, Glyn  
 Davies, Janet  
 Davies, Jocelyn  
 Francis, Lisa  
 German, Michael  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Elin  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Jones, Laura Anne  
 Lloyd, David  
 Marek, John  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Thomas, Owen John  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Brynle  
 Williams, Kirsty  
 Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Butler, Rosemary  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Andrew  
 Dunwoody-Kneafsey, Tamsin  
 Essex, Sue  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Idris Jones, Denise  
 James, Irene  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Law, Peter  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Catherine  
 Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment defeated.*

*Gwelliant 5: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 30.  
Amendment 5: For 29, Abstain 0, Against 30.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Cairns, Alun  
Davies, David  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Jones, Laura Anne  
Lloyd, David  
Marek, John  
Melding, David  
Morgan, Jonathan  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty  
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin  
Essex, Sue  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
James, Irene  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Catherine  
Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment defeated.*

*Cynnig (NDM2107): O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 30.  
Motion (NDM2107): For 29, Abstain 0, Against 30.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Cairns, Alun  
Davies, David  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Jones, Alun Ffred

James, Irene	Jones, Elin
Jones, Ann	Jones, Helen Mary
Jones, Carwyn	Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter	Jones, Laura Anne
Lewis, Huw	Lloyd, David
Lloyd, Val	Marek, John
Mewies, Sandy	Melding, David
Morgan, Rhodri	Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne	Randerson, Jenny
Pugh, Alun	Ryder, Janet
Sargeant, Carl	Thomas, Owen John
Sinclair, Karen	Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Catherine	Williams, Brynle
Thomas, Gwenda	Williams, Kirsty
	Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.*

*Motion defeated.*

### **Pwynt o Drefn Point of Order**

**The Finance Minister (Sue Essex):** I am sorry; I voted the wrong way on the motion. I thought that we were still on the previous vote.

**The Presiding Officer:** I apologise if we were moving at a decent pace through the voting. It will be noted for the record. I cannot change the voting, but it was a mistake and it will be noted. The Government's honour is saved even if, technically, the vote was lost.

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae'n ddrwg gennyf; pleidleisiais yn anghywir ar y cynnig. Yr oeddwn yn credu ein bod ar y bleidlais flaenorol o hyd.

**Y Llywydd:** Ymddiheuraf os oeddem yn bwrw ati yn gyflym drwy'r pleidleisiau. Caiff ei nodi ar gyfer y cofnod. Ni allaf newid y bleidlais, ond camgymeriad ydoedd a chaiff ei nodi. Caiff anrhwydedd y Llywodraeth ei achub er gwaethaf y ffaith, yn dechnegol, i'r bleidlais gael ei cholli.

### **Adroddiad y Pwyllgor Cyflawnder Cymdeithasol ac Adfywio ynglŷn â Thai ar gyfer Pobl Hŷn The Social Justice and Regeneration Committee's Report on Housing for Older People**

**Y Llywydd:** Er mwyn diogelu amser y ddadl fer, yr wyf yn bwriadu gosod cyfyngiad amser o dri munud i bob Aelod, ac eithrio Cadeirydd y pwyllgor, a fydd yn cael 15 munud, a'r Gweinidog a fydd yn cael uchafswm o wyth munud os yw'n dymuno. Fodd bynnag, ni fyddwn yn synnu pe bai'r Dirprwy Lywydd yn barod i dderbyn cynnig trefniadol i estyn y sesiwn, ar yr amser priodol, pe bai cynnig trefniadol yn cael ei gynnig.

**Janice Gregory:** I propose that

*the National Assembly, in accordance with Standing Order No 9.9, notes the report of the Social Justice and Regeneration*

**The Presiding Officer:** In order to protect the time for the short debate, I intend to set a time limit of three minutes for each Member, except for the committee Chair, who will have 15 minutes, and the Minister who will have a maximum of eight minutes if she wishes. However, should a procedural motion to extend the session be proposed, at the appropriate time, I am sure that the Deputy Presiding Officer would be willing to accept it.

**Janice Gregory:** Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 9.9, yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyflawnder Cymdeithasol ac*

*Committee entitled 'Policy Review—Housing for Older People' which was laid in the Table Office on 2 July 2004. (NDM2106)*

I am grateful for your comments, Presiding Officer. I had hoped that, because of its importance and the fact that it was postponed from July, this debate would have been afforded sufficient time, but I am grateful for your statement. I had thought that I would perhaps postpone the debate again, but this is a most important debate, and many people have put an awful amount of work into it. It therefore gives me the greatest pleasure to propose this motion.

4.40 p.m.

The Social Justice and Regeneration Committee's decision to conduct its policy review into housing for older people spawned from the Welsh Assembly Government's published strategy for older people in Wales. Members will recall that that document outlined a detailed implementation action plan that included the recommendation for a comprehensive, evidence-based need for meeting the future housing needs of older people. The report that we are debating today will provide an invaluable contribution to that exercise.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 4.41 p.m.  
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 4.41 p.m.*

The report was launched at the Assembly on 8 July. I was delighted that many of the residents of Wellwood House, Newport joined us for that. The committee visited Wellwood House at the start of the review in 2003, and the facilities offered there became the benchmark for good practice and expectations, which underpinned the whole review. It was fitting that we were able to go full circle and include Wellwood House at the launch.

In reaching its conclusions and recommendations, the committee took into account the substantial body of evidence received as a result of its consultation. Over 400 bodies were consulted at the outset, and several of the larger organisations were asked to supplement their written responses by

*Adfywio, 'Adolygiad Polisi—Tai ar gyfer Pobl Hŷn', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2004. (NDM2106)*

Yr wyf yn ddiolchgar am eich sylwadau, Lywydd. Yr oeddwn wedi gobeithio, oherwydd ei phwysigrwydd a'r ffaith iddi gael ei gohirio o fis Gorffennaf, y byddai digon o amser wedi'i neilltuo ar gyfer y ddadl hon, ond yr wyf yn ddiolchgar am eich datganiad. Ystyriais efallai y dylwn ohirio'r ddadl hon eto, ond mae'n ddadl hynod bwysig, ac mae llawer o bobl wedi gweithio'n galed iawn i'w pharatoi. Felly mae'n bleser o'r mwyaf gennyf gynnig y cynnig hwn.

Deilliodd penderfyniad y Pwyllgor Cyflawnder Cymdeithasol ac Adfywio i gynnal ei adolygiad polisi o dai ar gyfer pobl hŷn o'r strategaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Bydd yr Aelodau'n cofio i'r ddogfen amlinellu cynllun gweithredu manwl a oedd yn cynnwys argymhelliaid o ran angen cynhwysfawr, yn seiliedig ar dystiolaeth i ddiwallu anghenion tai pobl hŷn yn y dyfodol. Bydd yr adroddiad yr ydym yn ei drafod heddiw yn gyfraniad gwerthfawr i'r ymarfer hwnnw.

Lansiwyd yr adroddiad yn y Cynulliad ar 8 Gorffennaf. Yr oedd yn bleser gennyf weld bod llawer o drigolion Tŷ Wellwood, Casnewydd yn bresennol yn yr achlysur. Ymwelodd y pwylgor â Thŷ Wellwood ar ddechrau'r adolygiad yn 2003, a defnyddiwyd y cyfleusterau a gynigir yno fel y meincnod o ran arferion da a disgwyliadau, a fu'n sail i'r adolygiad cyfan. Yr oedd yn briodol inni goroni'r broses drwy wahodd trigolion Tŷ Wellwood i'r achlysur lansio.

Wrth lunio ei gasgliadau a'i argymhellion, ystyriodd y pwylgor y dystiolaeth helaeth a dderbyniwyd o ganlyniad i'w ymgynghoriad. Ymgynghorwyd â thros 400 o gyrff ar y cychwyn, a gofynnwyd i sawl un o'r sefydliadau mwy ategu eu hymatebion ysgrifenedig drwy ddarparu gwybodaeth

providing further information in formal committee hearings. Members also undertook several visits associated with the review and, importantly, these visits were not restricted to our own borders—we went outside Wales to see examples of good practice elsewhere. We saw many examples of innovation on those visits, which took in extra care schemes, specialist provision for people with dementia, housing for black and minority ethnic elders, retirement villages, and home improvement schemes to allow people to remain in their own homes.

It became clear from the beginning that this latter point would underlie the whole report. Older people, generally speaking, want to remain in their homes for as long as possible. There is a need to cater for those who feel the need for additional support, but the committee was convinced that the majority wish to remain in their own homes, even though many live in what is regarded as unfit housing. It is good to see that, with its commitment to funding the Care and Repair Agency and its strategy for combating fuel poverty, which is of greater concern to older people than those below retirement age, the Welsh Assembly Government recognises this. However, this is not the time for complacency. The foundations have been laid, and we must build on them.

A second issue to emerge from our review is that, regarding future provision, older people know what they want, and they want their voices to be heard. This is a lesson to us all. We may think that we know best, but there is no doubt that the people who know best are the end users. Future service design must be driven by the need to serve the requirements of our elders, not the elders having to put up with what we think is best for them. I will give an example. Much of the specialist provision for older people that is still operational today was built in the 1960s and 1970s to design standards that were thought to be acceptable at the time. Such items as wheelchair provision, private bathroom facilities, and even lifts in some instances, were regarded as a luxury rather than a necessity. Today's older generation want far more than this. Even in a cared-for

bellach mewn gwrandawiadau ffurfiol a gynhaliwyd gan y pwylgor. Yn ogystal, cynhaliodd yr aelodau sawl ymweliad mewn perthynas â'r adolygiad ac, yn bwysig, nid dim ond yng Nghymru y trefnwyd yr ymweliadau hyn—aethom y tu allan i Gymru i weld enghreifftiau o arferion da mewn mannau eraill. Gwelsom sawl enghraift o arloesedd ar yr ymweliadau hynny, a oedd yn cynnwys cynlluniau gofal ychwanegol, darpariaeth arbenigol ar gyfer pobl sy'n dioddef o ddemensia, tai ar gyfer pobl hŷn o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, pentrefi ymddeol, a chynlluniau gwella cartrefi sy'n galluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Daeth yn amlwg o'r dechrau y byddai'r pwyt diwethaf hwn yn sail i'r adroddiad cyfan. Yn gyffredinol, mae pobl hŷn am aros yn eu cartrefi cyhyd â phosibl. Mae angen darparu ar gyfer y rheini sy'n teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnynt, ond darbwyllyd y pwylgor bod y mwyafrif am aros yn eu cartrefi eu hunain, er bod llawer ohonynt yn byw mewn tai yr ystyrir eu bod yn anaddas. Mae'n braf gweld bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda'i hymrwymiad i ariannu'r Asiantaeth Gofal a Thrwsio a'i strategaeth ar gyfer trechu tlodi tanwydd, sy'n peri mwy o bryder i bobl hŷn na'r rhai sy'n iau na'r oedran ymddeol, yn cydnabod hyn. Fodd bynnag, nid dyma'r amser i orffwys ar ein rhwyfau. Gosodwyd y sylfeini, a rhaid inni adeiladu arnynt.

Ail fater a ddaeth i'r amlwg o'n hadolygiad, o ran darpariaeth yn y dyfodol, yw bod pobl hŷn yn gwybod beth y maent ei eisiau, a'u bod am i bobl wrando arnynt. Mae hynny'n wers i bob un ohonom. Efallai ein bod yn credu mai ni sy'n gwybod orau, ond yn ddi-  
au, y defnyddwyr terfynol yw'r bobl sy'n gwybod orau. Rhaid i'r angen i fodloni gofynion pobl hŷn, yn hytrach na disgwyl i bobl hŷn dderbyn ein barn ni am yr hyn sydd orau iddynt, fod yn sail i'r broses o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. Difynnaf enghraift. Adeiladwyd llawer o'r ddarpariaeth arbenigol ar gyfer pobl hŷn sy'n parhau'n weithredol heddiw yn y 1960au a'r 1970au yn unol â safonau cynllunio yr ystyriwyd eu bod yn dderbyniol ar y pryd. Moethusrwydd oedd eitemau fel darpariaeth ar gyfer cadeiriau olwyn, ystafelloedd ymolchi preifat, a hyd yn oed liffiau mewn

environment they want their own front doors, their own living accommodation, and to maintain their independence.

The third lesson learned from our investigation is the need to provide the whole gambit of housing and support services. The Social Justice and Regeneration Committee is unanimous in its belief that good housing for all is the absolute key to providing a fair, just and healthy society. To achieve this, we must ensure that older people are made aware of their rights and the options that are available to them regarding their housing and care needs. This means an almost seamless service, involving housing, health and social care agencies. I hope that the Welsh Assembly Government can create the right environment to allow the appropriate partnerships to develop.

The committee has produced a good report. It identifies the problems that need to be confronted to ensure that our older people can live in comfort and security and as independently as they may wish. It has been greatly assisted in this by the various organisations that have made such high-quality and comprehensive presentations to the committee. I take this opportunity to thank all those organisations that have contributed to our investigations. Without their input we would not be debating this report today. I also pay tribute to my fellow committee members. All too often, politicians are accused of playing party politics instead of tackling real issues. This report gives lie to that accusation. It has the unanimous support of the members of all four political parties and shows the effectiveness of the committee structure and its workings in the Assembly. However, I fully anticipate that the fact that we have reached a consensus will not be worth any column inches in tomorrow's *The Western Mail*, and I have not been inundated with requests from the broadcasting media to discuss harmony within the Social Justice and Regeneration Committee. Perhaps that will happen one day.

rhai achosion, yn hytrach nag anghenraid. Mae'r genhedlaeth hŷn sydd ohoni yn disgwyl llawer mwy na hyn. Hyd yn oed mewn amgylchedd lle gofelir amdanynt maent am gael eu drysau ffrynt eu hunain, eu hastafell fyw eu hunain, ac maent am gadw eu hannibyniaeth.

Y drydedd wers a ddysgywyd o'n hymchwiliad yw'r angen i ddarparu'r ystod gyfan o wasanaethau tai a chymorth. Cred y Pwyllgor Cyflawnader Cymdeithasol ac Adfywio yn unfrydol fod tai da i bawb yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau cymdeithas deg, cyflawn ac iach. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid inni sicrhau bod pobl hŷn yn ymwybodol o'u hawliau a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt o ran eu hanghenion tai a gofal. Mae hyn yn gofyn am wasanaeth unedig, fwy neu lai, sy'n cynnwys asiantaethau tai, iechyd a gofal cymdeithasol. Gobeithiaf y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru greu'r amgylchedd cywir i alluogi'r partneriaethau priodol i ddatblygu.

Mae'r pwyllgor wedi cynhyrchu adroddiad da. Mae'n nodi'r problemau y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau y gall ein pobl hŷn fyw yn gysurus ac yn ddiogel a chadw cymaint o annibyniaeth â phosibl. Cafodd gymorth sylweddol yn hyn o beth gan yr amrywiol sefydliadau a wnaeth gyflwyniadau cynhwysfawr o ansawdd uchel i'r pwyllgor. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl sefydliadau hynny a gyfrannodd at ein hymchwiliadau. Heb eu cyfraniad, ni fyddem yn cynnal dadl ynghylch yr adroddiad hwn heddiw. Talaf deyrnged hefyd i'm cyd-aelodau ar y pwyllgor. Yn rhy aml, caiff gwleidyddion eu cyhuddo o chwarae gêm wleidyddol bleidiol yn hytrach na mynd i'r afael â phroblemau gwirioneddol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi taw ar y cyhuddiad hwnnw. Llwyddodd i ennyn cefnogaeth unfrydol aelodau'r pedair plaid wleidyddol gan ddangos effeithiolrwydd strwythur y pwyllgorau a'u ffyrdd o weithio yn y Cynulliad. Fodd bynnag, mae'n siŵr gennyl na fydd y ffaith inni gael consensws yn cael unrhyw sylw yn *The Western Mail* yfory, ac nid wyf wedi cael fy llethu gan geisiadau di-rif gan y cyfryngau darlledu i drafod cytgord o fewn y Pwyllgor Cyflawnader Cymdeithasol ac Adfywio. Efallai y gwelwn hynny ryw ddiwrnod.

I also thank the committee clerk, Roger Chaffey, and his team for the immense amount of work undertaken in producing this report. I also thank the Members' research service for its work in analysing responses and providing Members with a comprehensive yet concise summary of the issues that were raised. Its work often goes unnoticed, but I wish to assure Graham Winter and his team that it is no less appreciated.

I give special thanks to Nigel Appleton, the special adviser—and I am delighted to see him in the public gallery—who has assisted the committee on this project. He is one of the acknowledged leaders in the field of housing provision, and has been particularly active in his engagement with services for the elderly. It has been a privilege to work with him. There is not doubt that without his guidance and expertise we would not have been able to arrive at such rounded and thoughtful conclusions. He has been most helpful in guiding the committee in its deliberations.

I am delighted to present this report today. It provides a base on which the Welsh Assembly Government can implement the development of the overall strategies for housing and older people. The report is directed to the Minister for Social Justice and Regeneration, but I also commend it to the Minister for Health and Social Services. I trust that both Ministers will be able to respond to its conclusions and recommendations at the appropriate time. I commend the report to Members and hope that they will support the recommendations.

**Lisa Francis:** The Welsh Conservative Group is pleased that this policy review into housing for older people in Wales has been conducted. All 26 recommendations in the report are laudable and in keeping with the spirit of the strategy for older people. Recommendation 3 recognises the need to carry out a strategic review to determine the future housing aspirations, requirements and needs of older people. This could be done by carrying out a national study of the views of people in their 50s and 60s on the type of

Diolchaf hefyd i glerc y pwylgor, Roger Chaffey, a'i dîm am eu gwaith eithriadol wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn. Diolchaf hefyd i wasanaeth ymchwil yr Aelodau am ei waith wrth ddadansoddi ymatebion ac wrth roi crynodeb byr ond cynhwysfawr i'r Aelodau o'r materion a godwyd. Anaml y cydnabyddir ei waith, ond yr wyf am sicrhau Graham Winter a'i dîm ein bod, serch hynny, yn ei werthfawrogi.

Diolchaf yn arbennig i Nigel Appleton, y cynghorydd arbennig—ac mae'n bleser gennyf ei weld yn yr oriel gyhoeddus—a fu'n cynorthwyo'r pwylgor gyda'r prosiect hwn. Caiff ei gydnabod fel arweinydd ym maes darpariaeth tai, a bu'n ymwneud yn benodol â gwasanaethau i'r henoed. Bu'n faint cydweithio ag ef. Nid oes amheuaeth na fyddem wedi llwyddo i ddod i gasgliadau mor gytbwys ac ystyrlon heb ei arweiniad a'i arbenigedd. Bu ei gyfraniad yn ddefnyddiol iawn wrth helpu i lywio trafodaethau'r pwylgor.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn heddiw. Darpara sail y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ei defnyddio i ddatblygu'r strategaethau cyffredinol ar gyfer tai a phobl hŷn. Mae'r adroddiad wedi'i gyfeirio at y Gweinidog dros Gyflawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ond fe'i cymeradwyaf hefyd i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Hyderaf y bydd y ddu Weinidog yn gallu ymateb i'w gasgliadau a'i argymhellion ar yr adeg briodol. Cymeradwyaf yr adroddiad i'r Aelodau a gobeitiaf y byddant yn cefnogi'r argymhellion.

**Lisa Francis:** Mae Grŵp Ceidwadwyr Cymru yn falch bod yr adolygiad polisi hwn o dai ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru wedi'i gynnal. Mae pob un o'r 26 o argymhellion yn yr adroddiad yn glodwiw ac yn gydnaws ag ysbryd y strategaeth ar gyfer pobl hŷn. Mae argymhelliaid 3 yn cydnabod yr angen i gynnal adolygiad strategol i ganfod dyheadau, gofynion ac anghenion pobl hŷn o ran tai ar gyfer y dyfodol. Gellid gwneud hyn drwy gynnal astudiaeth genedlaethol o farn pobl yn eu 50au a'u 60au am y math o dai y

housing that they would like to see available to them as they get older.

While this report is welcome, I hope that all the recommendations can be implemented as soon as possible. I am sure that all Members in the Chamber could cite constituency cases where elderly and disabled people are suffering due to poor housing. These are policies for the future, but given the nature of the current system, I am concerned about the practicalities of implementing these policies. On repairs to older people's council housing, for example, I am aware of situations whereby local authorities blame the Welsh Assembly Government for lack of progress because of the withdrawal of funding, while the Government tells us that local authorities are responsible for deciding how they spend their money. The reality is that this bat and ball argument provides no real answers for those elderly, vulnerable, disabled people who have little or no time to wait for improvements.

I welcome the report. Almost 17,000 elderly people have died during the past decade from the effects of cold in their homes. The time for action and clarification of responsibility cannot come soon enough.

**Rosemary Butler:** I welcome this report. Housing has not been at the top of any political agenda for the past 30 years. As a result, it has become somewhat of a cinderella service. This is an excellent report and the committee and the chair should be justly proud of it. It will bring housing to the top of the agenda.

I will make three brief points. Homeowners face the growing problem of seeing their properties rise in value on the one hand, which reduces their points with respect to housing waiting lists, while, on the other, houses have not risen enough in value to allow them to buy into a private sector senior citizen development scheme. Recommendation 2 suggests a number of ideas that may address this problem, including shared ownership. I hope that this idea is progressed.

4.50 p.m.

byddent am iddynt fod ar gael iddynt wrth iddynt heneiddio.

Er fy mod yn croesawu'r adroddiad hwn, gobeithiaf y gellir gweithredu'r holl argymhellion cyn gynted â phosibl. Yr wyf yn siŵr y gallai pob Aelod yn y Siambraeon am achosion yn eu hetholaeth lle y mae'r henoed a phobl anabl yn dioddef o ganlyniad i dai gwael. Mae'r rhain yn bolisiau ar gyfer y dyfodol, ond o ystyried natur y system bresennol, yr wyf yn pryeru ynghylch ymarferoldeb gweithredu'r polisiau hyn. O ran trwsio tai cyngor pobl hŷn, er enghraifft, yr wyf yn ymwybodol o sefyllfaoedd lle y mae awdurdodau lleol yn beio Llywodraeth Cynulliad Cymru am ddiffyg cynnydd am iddi dynnu arian yn ôl, ond dywed y Llywodraeth wrthym mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am benderfynu sut y caiff eu harian ei wario. Y gwir amdani yw nad yw'r ddadl hon, sy'n mynd yn ôl ac ymlaen, yn rhoi unrhyw atebion go iawn i'r bobl hŷn, diamddiffyn, anabl hynny na allant aros yn hir, os o gwbl, am welliannau.

Croesawaf yr adroddiad. Bu farw bron 17,000 o bobl hŷn yn ystod y degawd diwethaf o ganlyniad i effeithiau oerfel yn eu cartrefi. Mae'n hen bryd inni weithredu a phennu cyfrifoldebau.

**Rosemary Butler:** Croesawaf yr adroddiad hwn. Ni fu tai ar frig unrhyw agenda wleidyddol ers 30 mlynedd. O ganlyniad, daeth yn rhyw fath o wasanaeth sinderela. Mae'r adroddiad hwn yn un ardderchog a dylai'r pwylgor a'r cadeirydd ymfalchiô ynddo. Daw â thai i frig yr agenda.

Gwnaf dri phwynt cryno. Mae perchnogion tai yn wynebu'r broblem gynyddol o weld eu heiddo yn codi mewn gwerth ar y naill llaw, sy'n lleihau eu pwyntiau o ran rhestrau aros am dai, ac, ar y llaw arall, gwelant nad yw gwerth tai wedi codi ddigon i alluogi iddynt ymuno ag un o gynlluniau datblygu'r sector preifat i'r henoed. Mae argymhelliad 2 yn awgrymu nifer o syniadau a allai fynd i'r afael â'r broblem hon, gan gynnwys rhan-berchenogaeth. Gobeithiaf y caiff y syniad hwn ei ddatblygu.

My second point relates to the lifestyles of older people. Once their accommodation expectations are realised, we need to consider their leisure and social expectations. We must be wary of parking people in accommodation, regardless of whether it is good accommodation, and not take any further part in helping them to develop their lives. We must encourage them to develop existing and new skills so that they not only live longer, but live longer better.

We need to rethink our views on old age, and I hope that the strategy for older people will help us to think about better lifestyles as well as providing better accommodation. Recommendations 18 and 21 go some way to addressing this issue.

I realise that time is short, therefore I will conclude with a point about partnerships. A number of the report's recommendations deal with partnerships. It is important that good partnerships are established. Partnerships in my constituency could be used as best practice models throughout the UK, not just in Wales. These partnerships with housing associations are delivering extra care schemes and redeveloping worn out prefabricated housing, which is popular with older people. It is important that new partnerships are developed across Wales, not just with health services, but with education and leisure services. If we are to deliver a new lifestyle to accompany accommodation, partnerships must be developed.

The report contains many points that Members would like to address, but time is short and I must conclude. I congratulate the committee, and I hope that the Minister for Health and Social Services and the Minister for Social Justice and Regeneration will do the report justice.

**David Lloyd:** Nine per cent of homes in Wales are unfit, compared with 7 per cent in England. Over a third of houses in Wales were built before 1919, and 52 per cent of older people live in pre-1919 dwellings. This

Mae fy ail bwynt yn ymwneud â ffyrdd o fyw pobl hŷn. Unwaith y caiff eu dyheadau o ran tai eu bodloni, bydd angen inni ystyried eu disgwyliadau hamdden a chymdeithasol. Rhaid inni ochel rhag rhoi pobl mewn tai, waeth pa un ydynt yn dai o ansawdd da ai peidio, a pheidio â chymryd unrhyw gamau pellach i'w helpu i ddatblygu eu bywydau. Rhaid inni eu hannog i ddatblygu'r sgiliau a feddant eisoes ynghyd â sgiliau newydd er mwyn iddynt nid yn unig fyw'n hwy, ond byw'n hwy yn well.

Mae angen inni ailystyried ein safbwytiau o ran yr henoed, a gobeithiaf y bydd y strategaeth ar gyfer pobl hŷn yn ein helpu i ystyried gwell ffyrdd o fyw yn ogystal â darparu tai gwell. Mae argymhellion 18 a 21 yn paratoi'r ffordd ar gyfer ymdrin â'r mater hwn.

Sylweddolaf fod amser yn brin, felly dof i ben gyda phwynt am bartneriaethau. Mae nifer o argymhellion yr adroddiad yn ymdrin â phartneriaethau. Mae'n bwysig sefydlu partneriaethau da. Gellid defnyddio partneriaethau yn fy etholaeth fel modelau o arferion gorau ledled y DU, nid yng Nghymru yn unig. Mae'r partneriaethau hyn gyda chymdeithasau tai yn cyflwyno cynlluniau gofal ychwanegol ac yn ailddatblygu hen dai parod, sy'n boblogaidd gyda phobl hŷn. Mae'n bwysig datblygu partneriaethau newydd ledled Cymru, nid gyda'r gwasanaethau iechyd yn unig, ond gyda gwasanaethau addysg a hamdden. Er mwyn inni gyflwyno ffordd newydd o fyw i gyd-fynd â'r tai, rhaid datblygu partneriaethau.

Mae'r adroddiad yn cynnwys sawl pwynt y byddai Aelodau yn hoffi ymdrin â hwy, ond mae amser yn brin a rhaid imi ddirwyn i ben. Llongyfarchaf y pwylgor, a gobeithiaf y bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog dros Gyflawnder Cymdeithasol ac Adfywiad yn rhoi sylw haeddiannol i'r adroddiad.

**David Lloyd:** Mae 9 y cant o gartrefi yng Nghymru mewn cyflwr anaddas, o'i gymharu â 7 y cant yn Lloegr. Adeiladwyd dros draean y tai yng Nghymru cyn 1919, ac mae 52 y cant o bobl hŷn yn byw mewn cartrefi a

review, therefore, is welcome, because poor housing equals poor health; it is one of the major determinants of ill health. Nowadays, people live longer and are, by and large, fitter in old age. With an increasing number of fitter older people wanting to maintain their independence, the Government needs to respond with innovative solutions, as demonstrated in this report. This could be done by guaranteed funding for care and repair schemes and by investing in intermediate care and assistive technology, so that older people can stay in their homes with peace of mind and independence. We also need to address the shortage of occupational therapists and physiotherapists in our communities, in order to provide the expert support that older people deserve and need.

We cannot talk about older people remaining in their homes without talking about council tax rebanding. I received a letter from a pensioner that accurately portrays the distress caused by the fact that the council tax demand is now well above the state pension. Much work needs to be done on many fronts to improve housing for older people. Let us turn the report's recommendations into reality.

**Catherine Thomas:** I was pleased to contribute to this review, and I thank Nigel Appleton, the committee's special adviser, for his guidance and expertise. I would also like to thank the committee's staff for their hard work.

This was a much needed review of an area of crucial importance. I take this opportunity to consider the consequences of living in housing that is inadequate and inappropriate, and why a holistic approach must be adopted in relation to older people's housing requirements. A scenario that we too often witness is that of older people living in accommodation that does not meet their needs. Consequently, they are forced to leave their homes when basic adaptation work could have enabled them to stay put. They often suffer the trauma of leaving their home when it could so easily have been avoided. Getting this aspect of housing need right is

adeiladwyd cyn 1919. Felly, croesewir yr adolygiad hwn gan fod tai gwael yn gyfystyr ag iechyd gwael; mae'n un o'r prif ffactorau sy'n achosi salwch. Yn yr oes sydd ohoni, mae pobl yn byw'n hwy ac, ar y cyfan, maent yn fwy iach yn eu henaint. Gyda nifer gynyddol o bobl hŷn, iachach yn awyddus i gadw eu hannibyniaeth, mae angen i'r Llywodraeth ymateb mewn ffordd arloesol, fel y nodir yn yr adroddiad hwn. Gellid gwneud hyn drwy warantu cyllid i gynlluniau gofal a thrwsio a thrwy fuddsoddi mewn gofal canolradd a thechnoleg gynorthwyol, er mwyn i bobl hŷn allu aros yn eu cartrefi gyda thawelwch meddwl ac annibyniaeth. Mae angen inni hefyd ymdrin â phrinder therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion yn ein cymunedau, er mwyn darparu'r cymorth arbenigol y mae pobl hŷn yn ei haeddu ac y mae ei angen arnynt.

Ni allwn sôn am bobl hŷn yn aros yn eu cartrefi heb sôn am ailfandio'r dreth gyngor. Derbyniais lythyr gan bensiynwr sy'n disgrifio i'r dim y gofid a achosir gan yffaith bod bil y dreth gyngor bellach yn llawer uwch na phensiwn y wladwriaeth. Mae angen gwneud llawer o waith ar sawl tu i wella tai i bobl hŷn. Gadewch inni droi argymhellion yr adroddiad yn realiti.

Having abandoned Abby, her mother used to drop money through the letterbox occasionally. Not being able to talk to someone about what was happening to her made it hard to cope. I quote Abby again:

‘When I started seeing the NSPCC counsellor things really started to look up. I am not cutting myself anymore and I'm lots more confident’.

Finally having someone to turn to at a vulnerable time in her life perhaps made Abby more fortunate than many young people in similar situations. However, sadly, far too many children and young people are still unable to achieve their potential in life

**Christine Chapman:** Mae Kirsty Williams, Denise Idris Jones, Laura Anne Jones a Dai Lloyd wedi gofyn am amser i siarad yn y ddadl hon.

Pan ddarganfu athro fod Abby, ac nid dyna ei henw iawn, yn niweidio ei hun, fe'i cyfeiriwyd at un o gwnsleriaid y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC). Yr oedd mam Abby wedi ei gadael pan oedd yn 14 mlwydd oed ac, yn ei geiriau ei hun,

pan ddigwyddodd hyn, daeth gweithwyr cymdeithasol i'm gweld i asesu fy sefyllfa. Ond bob tro yr oeddent yn dod, byddai fy mam yn dod i wybod ac yn dod i'r tŷ ac yn dweud ei bod yn byw gyda mi. Nid oeddwn am fentro gwrth-ddweud fy mam. Hyd yn oed cyn iddiadael prin ei bod yno. O'r adeg pan adawodd fy nhad pan oeddwn yn chwe blwydd oed, yr oedd allan gyda llawer o ddynion gwahanol drwy'r amser. Yr oedd ganddi ei bywyd ei hun ac yr oedd am ei fyw. Yr oedd yn anodd dadlau gyda mam – byddai'n yfed llawer ac yr oedd yn fy mwrw hyd at fy mhen-blwydd yn 15 mlwydd oed.

Ar ôl gadael Abby, byddai ei mam yn rhoi arian iddi drwy'r blwch llythyrau weithiau. Yr oedd methu â siarad â rhywun am yr hyn a oedd yn digwydd iddi yn ei gwneud yn anodd i ymdopi. Dywedodd Abby hefyd:

Pan ddechreuais weld cwnsler yr NSPCC dechreuodd pethau wella. Nid wyf yn niweidio fy hun mwyach ac yr wyf yn llawer mwy hyderus.

Efallai fod cael rhywun i droi ato o'r diwedd ar adeg yn ei bywyd pan oedd yn ddiamdiffyn wedi golygu bod Abby yn fwy ffodus na llawer o bobl ifanc mewn sefyllfaoedd tebyg. Fodd bynnag, yn anffodus, mae llawer gormod o blant a phobl

because of emotional and psychological problems. Without support they may become demotivated and disaffected, putting their self-esteem and confidence at risk. By failing to listen and take the concerns and worries of children and young people seriously, we are failing them.

A survey recently carried out by the NSPCC Cymru/Wales at the Urdd Eisteddfod in Ynys Môn revealed that young people worry about many things. Anxieties expressed by those who completed the questionnaire included worries over weight, people dying, schoolwork, bullying, war and parents falling out, to name but a few. Other issues also affect them. Children and young people are often the forgotten victims of domestic abuse. Such young people need to be able to talk about their experiences as, too often, they are left feeling isolated by the behaviour that they are experiencing at home.

The tragic story of Laura Rhodes, the young schoolgirl from Neath who committed suicide after apparently suffering from bullying at school, highlighted how much more must be done to provide support for vulnerable children whose daily lives become unbearable. I applaud the Welsh Assembly Government's work on bullying, but I do not think that we are there yet, and much more needs to be done to tackle bullying.

This autumn, the NSPCC will embark on the latest phase of its 'Someone to Turn To' campaign. Research has shown that children and young people who suffer from abuse, bullying and violence may bottle things up and be hesitant to share their problems. The campaign urges children and young people to talk to someone if they are worried, and informs them of sources of advice and support provided by a range of organisations and groups. The campaign is also about mobilising the whole of society, because child protection is everyone's responsibility. Members of the public, for example, can play a part in the initiative by donating money, fundraising and campaigning on the NSPCC's behalf. The NSPCC is calling for independent school-based counselling

ifanc yn methu â chyflawni eu potensial mewn bywyd o hyd oherwydd problemau emosiynol a seicolegol. Heb gymorth efallai y byddant yn colli eu cymhelliant ac yn mynd yn anfoddog, gan beryglu eu hunan-barch a'u hyder. Drwy beidio â gwrando ar bryderon plant a phobl ifanc a'u cymryd o ddifrif, yr ydym yn methu â rhoi cymorth iddynt.

Datgelodd arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddar gan NSPCC Cymru yn Eisteddfod yr Urdd ar Ynys Môn fod pobl ifanc yn poeni am lawer o bethau. Ymhllith y pryderon a nodwyd gan y rhai a gwblhaodd yr holiadur yr oedd pryderon am eu pwysau, pobl yn marw, gwaith ysgol, bwlio, rhyfel a rhieni yn ffraeo, i enwi ond ychydig. Mae materion eraill yn effeithio arnynt hefyd. Yn aml plant a phobl ifanc yw'r dioddefwyr sy'n cael eu hanghofio mewn achos o gam-drin yn y cartref. Mae angen i bobl ifanc o'r fath gael cyfle i siarad am eu profiadau oherwydd, yn rhy aml, maent yn teimlo'n unig oherwydd yr ymddygiad y maent yn ei wynebu yn y cartref.

Mae stori drasig Laura Rhodes, y ferch ysgol ifanc o Gastell-nedd a laddodd ei hun ar ôl cael ei bwlio yn yr ysgol yn ôl pob tebyg, wedi amlygu bod angen gwneud llawer mwy i gynorthwyo plant diamdiffyn y mae eu bywydau pob dydd yn annioddefol. Cymeradwyaf waith Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fwlio, ond ni chredaf fod ein gwaith ar ben eto, ac mae angen gwneud llawer mwy i fynd i'r afael â bwlio.

Yn ystod yr hydref eleni, bydd yr NSPCC yn dechrau ar gam diweddaraf ei hymgyrch 'Rhywun i Droi Ato'. Mae ymchwil wedi dangos y gall plant a phobl ifanc sy'n cael eu cam-drin, eu bwlio ac sy'n dioddef trais fygu eu teimladau a bod yn amharod i rannu eu problemau. Mae'r ymgyrch yn annog plant a phobl ifanc i siarad â rhywun os ydynt yn poeni am rywbeth, ac yn eu hysbysu am ffynonellau cyngor a chymorth sydd ar gael gan amrywiaeth o sefydliadau a grwpiau. Mae'r ymgyrch hefyd yn ymwneud â sbarduno'r gymdeithas gyfan, oherwydd mae amddiffyn plant yn ddyletswydd ar bawb. Gall aelodau o'r cyhoedd, er enghraifft, chwarae rhan yn y fenter drwy roi arian, codi arian ac ymgyrchu ar ran yr NSPCC. Mae'r NSPCC yn galw am ddarparu gwasanaethau

services to be available for all children to ensure that they get the support that they need to reach their full potential, which is not currently the case.

Counselling should involve not just the child but parents, friends and teachers. Taking such a holistic approach was key to the success of the Wrexham schools counselling team. This project, which has been in existence since 1996, works across the primary and secondary sector. Children and young people are able to self-refer to the independent counsellor in their schools, and referrals are also taken from teachers, parents and other professionals. The project provides counselling group work and workshops and helps schools to establish peer support programmes with pupils.

The Urdd survey demonstrated that many children, nearly three quarters of the respondents, would prefer to turn to a friend—someone they know, who is close to them and, vitally, whom they trust. As such, the NSPCC feels that peer support schemes are of prime importance. Children and young people are trained and recruited so that they can offer support to their peers.

Children and young people are our future. How we nurture them now can have a long-lasting impact on the next generation. If young people such as Abby are to look forward to a more settled future, the Government must look to providing independent listening services for children and young people that will make them feel confident that their worries are being listened to, believed and acted upon where necessary. All children, and not just a few, should have that right.

**Kirsty Williams:** I thank Christine for bringing the issue of the rights and welfare of children and young people to the Assembly's attention, as she has done on many occasions. You should be congratulated on your continued work in this area; I know that it is appreciated by all Members. I look forward to joining the NSPCC next month in

cwnsela annibynnol mewn ysgolion i bob plentyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflawni eu potensial llawn, rhywbeth nad yw'n digwydd ar hyn o bryd.

Dylai'r broses gwnsela gynnwys rhieni, ffrindiau ac athrawon yn ogystal â'r plentyn. Yr oedd cymryd ymagwedd gyfannol o'r fath yn allweddol i lwyddiant tîm cwnsela ysgolion Wrecsam. Mae'r prosiect hwn, sydd wedi bodoli ers 1996, yn gweithio ar draws y sector cynradd ac uwchradd. Gall plant a phobl ifanc gyfeirio eu hunain i'w cwnsler annibynnol yn eu hysgolion, a derbynir cyfeiriadau hefyd oddi wrth athrawon, rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r prosiect yn darparu gwaith grŵp a gweithdai cwnsela ac mae'n helpu ysgolion i sefydlu rhagleni cymorth cyfoedion gyda disgylion.

Dangosodd arolwg yr Urdd fod yn well gan lawer o blant, bron tri chwarter yr ymatebwyr, droi at ffrind – rhywun y maent yn ei adnabod, sy'n agos iddynt ac, yn hollbwysig, y maent yn ymddiried ynddo. Fel y cyfryw, mae'r NSPCC o'r farn bod cynlluniau cymorth cyfoedion yn hollbwysig. Caiff plant a phobl ifanc eu hyfforddi a'u reciwtio er mwyn iddynt allu cynnig cymorth i'w cyfoedion.

Plant a phobl ifanc yw ein dyfodol. Gall y ffordd yr ydym yn eu meithrin yn awr gael effaith hirdymor ar y genhedlaeth nesaf. Os yw pobl ifanc fel Abby i edrych ymlaen at ddyfodol mwy sefydlog, rhaid i'r Llywodraeth geisio darparu gwasanaethau gwrando annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc a fydd yn gwneud iddynt deimlo'n hyderus bod rhywun yn gwrando arnynt, yn credu ynddynt a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd lle y bo angen. Dylai pob plentyn, ac nid dim ond yr ychydig rai, gael yr hawl honno.

**Kirsty Williams:** Hoffwn ddiolch i Christine am dynnu sylw'r Cynulliad at fater hawliau a lles plant a phobl ifanc, fel y mae wedi gwneud ar sawl achlysur. Dylid eich llongyfarch am eich gwaith parhaus yn y maes hwn; gwn fod pob Aelod yn ei werthfawrogi. Edrychaf ymlaen at ymuno â'r NSPCC y mis nesaf i hyrwyddo'r ymgyrch

promoting this campaign in my constituency. I sometimes feel that children and young people in rural areas have additional issues and barriers to seeking support because of the nature of the communities in which they live. Everyone knows everyone, and finding someone to speak to in confidence can often be difficult. Accessing services can also be problematic if public transport is not available to take you to a particular venue. I am delighted that the Welsh Liberal Democrats, at our last conference, committed to the call for independent counselling services for all schoolchildren in Wales. I look forward to working with like-minded colleagues, such as Christine, to see what we can do following this debate, which is timely considering the comments made during the Clywch inquiry debate last week.

**Denise Idris Jones:** I also applaud Christine for choosing this subject for her short debate. On 1 December, I will host an NSPCC reception at the Assembly to celebrate the fifth anniversary of the NSPCC's bilingual helpline set up in Bangor. I speak regularly with the volunteers who man the helpline, and know that many of the problems that young people in Wales have relate to bullying. I am a former teacher, and there was a strong bullying policy at the school where I taught, which we attempted to adhere to as much as possible. However, the bullying continued. It caused misery for pupils, and still does. I agree with Christine that the best answer is peer support schemes, whereby pupils help and support other pupils. A desperate person needs someone to listen to them and to help them to raise their self-esteem. It is not easy for children to admit to their parents that the world is against them. To be bullied means that you are different, and that is the last thing that a young person wants. We live in a society where young people want to look and dress the same. Bullying is and will be a huge concern. I am glad that there is an NSPCC helpline in my constituency, and I am grateful to those people on the end of the phone who are willing to listen and to offer advice to others in their preferred language.

hon yn fy etholaeth. Weithiau teimlaf fod gan blant a phobl ifanc mewn ardaloedd gwledig broblemau a rhwystrau ychwanegol i ddod o hyd i gymorth oherwydd natur y cymunedau y maent yn byw yn dyddyd. Mae pawb yn adnabod pawb, a gall dod o hyd i rywun i siarad â hwy yn gyfrinachol fod yn anodd yn aml. Hefyd gall cael gafael ar wasanaethau fod yn broblematig os nad oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael i fynd â chi i leoliad arbennig. Yr wyf yn falch bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn ein cynhadledd ddiwethaf, wedi ymrwymo i alw am wasanaethau cwnsela annibynnol ar gyfer pob plentyn ysgol yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chyd-Aelodau sydd o'r un farn, fel Christine, i weld beth allwn ei wneud yn dilyn y ddadl hon, sy'n amserol o ystyried y sylwadau a wnaed yn ystod dadl ymchwiliad Clywch yr wythnos diwethaf.

**Denise Idris Jones:** Cymeradwyaf Christine hefyd am ddewis y pwnc hwn ar gyfer ei dadl fer. Ar 1 Rhagfyr, byddaf yn cynnal derbyniad NSPCC yn y Cynulliad i ddathlu pum mlynedd ers lansio llinell gymorth ddwyieithog yr NSPCC ym Mangor. Yr wyf yn siarad â'r gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y llinell gymorth yn rheolaidd, a gwn fod llawer o'r problemau sydd gan bobl ifanc yng Nghymru yn gysylltiedig â bwlio. Yr wyf yn gyn-athrawes, ac yr oedd gan yr ysgol lle yr oeddwn yn athrawes bolisi bwlio cryf, ac yr oeddem yn ceisio glynw ato gymaint â phosibl. Fodd bynnag, yr oedd y bwlio yn parhau. Parodd ofid ymhlið disgyblion, ac mae'n parhau i wneud hynny. Cytunaf â Christine mai'r ateb gorau yw cynlluniau cymorth cyfoedion, lle y mae disgyblion yn helpu ac yn cynorthwyo disgyblion eraill. Mae angen i berson mewn sefyllfa anobeithiol gael rhywun i wrando arno a'i helpu i godi ei hunan-barch. Nid yw'n hawdd i blant gyfaddef i'w rhieni bod y byd yn eu herbyn. Mae'r ffaith bod rhywun yn cael ei fwlio yn golygu ei fod yn wahanol, a dyna'r peth diwethaf y mae person ifanc yn ei ddymuno. Yr ydym yn byw mewn cymdeithas lle y mae pobl ifanc am edrych a gwisgo yr un fath. Mae bwlian yn bryder mawr a bydd yn parhau felly. Yr wyf yn falch bod llinell gymorth NSPCC yn fy etholaeth, ac yr wyf yn falch bod y bobl hynny ar ben arall y ffôn yn barod i wrando a chynnig cymorth i eraill yn eu dewis iaith.

**Laura Anne Jones:** I also thank Christine Chapman for bringing forward this important debate, and agree with all the comments made thus far. Listening should be simple, but listening to children means paying attention to what they say and encouraging them to share their thoughts and feelings. That is one of the main pieces of advice provided by the NSPCC, which exists to prevent child abuse. It states that parents who cannot communicate well are more likely to resort to smacking and hitting. Children who are never listened to properly will grow up feeling that the important adults in their lives are not interested in them, which leads to low self-esteem. Communication is vital in preventing child abuse. Being listened to is one of the basic needs of children, as it develops trust. I was fortunate to meet representatives from NSPCC Wales yesterday, and I was extremely impressed by the service that it provides for children in Wales. One project is based on the Gurnos estate at the Busy Bee centre, where residents are given the opportunity to seek advice and to talk to NSPCC staff who provide a valuable support service. Services such as these are essential in today's society, in which the stresses of modern life have led to an increase in the number of children suffering from mental health problems. More than a third of children in Wales experience some form of mental anxiety. The NSPCC shows parents, teachers and all those who interact with children how to spot important signs and how to react. I found yesterday's meeting extremely positive. The NSPCC has an excellent interactive website for children who are being abused, which is invaluable for those who are not brave enough to tell someone about their problems.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Laura, you have had a minute and a half. Sorry about that, but these contributions are supposed to be short.

5.30 p.m.

**David Lloyd:** I congratulate Christine Chapman on choosing a vital subject for debate. Bullying and self-harm are increasingly becoming an issue. I ask the

**Laura Anne Jones:** Hoffwn innau hefyd ddiolch i Christine Chapman am gyflwyno'r ddadl bwysig hon, a chytunaf â'r holl sylwadau a wnaethpwyd hyd yn hyn. Dylai gwrando fod yn syml, ond mae gwrando ar blant yn golygu talu sylw i'r hyn y maent yn ei ddweud a'u hannog i rannu eu meddyliau a'u teimladau. Dyna un o'r prif gynghorion a roddir gan yr NSPCC, sy'n bodoli i atal cam-drin plant. Noda fod rhieni na allant gyfathrebu'n dda yn debycach o fwrw eu plant. Bydd plant nad oes neb byth yn gwrando arnynt yn iawn yn tyfu i fyny yn teimlo nad oes gan yr oedolion pwysig yn eu bywydau ddiddordeb ynddynt, sy'n arwain at hunan-barch isel. Mae cyfathrebu yn hanfodol i atal cam-drin plant. Mae cael rhywun i wrando arnynt yn un o anghenion sylfaenol plant, oherwydd mae'n meithrin ymddiriedaeth. Yr oeddwn yn ffodus i gwrdd â chynrychiolwyr o NSPCC Cymru ddoe, a gwnaeth y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i blant yng Nghymru argraff fawr arnaf. Ceir un prosiect ar ystad y Gurnos yng nghanolfan Busy Bee, lle y rhoddir cyfle i'r trigolion gael cyngor a siarad â staff yr NSPCC sy'n darparu gwasanaeth cymorth gwerthfawr. Mae gwasanaethau o'r fath yn hanfodol yn y gymdeithas sydd ohoni, lle y mae straen bywyd modern wedi arwain at gynnydd yn nifer y plant sy'n dioddef problemau iechyd meddwl. Mae mwy na thraean o blant yng Nghymru yn dioddef gyda rhyw fath o ofid meddwl. Mae'r NSPCC yn dangos i rieni, athrawon a phawb sy'n rhngweithio â phlant sut i adnabod yr arwyddion pwysig a sut i ymateb. Yn fy marn i, yr oedd y cyfarfod ddoe yn gadarnhaol iawn. Mae gan yr NSPCC wefan ryngweithiol ardderchog i blant sy'n cael eu cam-drin, sy'n werthfawr iawn i'r rhai nad ydynt yn ddigon dewr i ddweud wrth rywun am eu problemau.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Laura, yr ydych wedi cael munud a hanner. Mae'n ddrwg gennylf am hynny, ond mae'r cyfraniadau hyn i fod yn fyr.

**David Lloyd:** Hoffwn longyfarch Christine Chapman am ddewis pwnc hollbwysig ar gyfer y ddadl. Mae bwlian a hunan-niwed yn mynd yn broblem gynyddol. Gofynnaf i'r

Minister to guarantee secure funding for New Pathways, the excellent abuse counselling service in Merthyr Tydfil, which I have visited a few times. It is a vital service for young people from all parts of south Wales.

**The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt):** I thank Christine for outlining how the NSPCC's proposals on child protection and listening to children form part of its ongoing Full Stop campaign to end cruelty to children. I also thank other Members for their contributions. Protecting children is a matter for everyone, and we all have a duty to report any concerns that we may have about the welfare and safety of a child. This debate, and the NSPCC report, takes us forward with regard to the wider perspective of listening to children, and opening ourselves up as adults so that they can turn to us and trust us. As Denise said, it is key that children and young people can also turn to and trust their peers. The websites, helplines and projects mentioned today, which are innovative and which address these issues, are leading the way. I am delighted, as the Minister with responsibility for the health and wellbeing of children, to be able to respond to and endorse the proposals in the NSPCC report.

The Children Bill brings with it new opportunities, because it will result in changes in policy and legislation in Wales to maximise opportunities and minimise risks for all children and young people. We will be able to ensure that services are focused universally and more effectively on the needs of children, young people and families. The Bill places responsibility on key agencies to have regard to safeguarding children and promoting their welfare in exercising their normal functions. Attending school is part of this, which is why education is key. We will replace the area child protection committees with the new statutory local safeguarding children boards. This will give authorities clout and give backing to the multi-agency groups with responsibilities in this regard.

Gweinidog sicrhau arian diogel ar gyfer Llwybrau Newydd, y gwasanaeth cwnsela ardderchog ym Merthyr Tudful i'r rhai sydd wedi cael eu cam-drin, yr wyf wedi ymweld ag ef sawl gwaith. Mae'n wasanaeth hanfodol i bobl ifanc o bob cwr o dde Cymru.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Hoffwn ddiolch i Christine am amlinellu sut y mae cynigion yr NSPCC ar gyfer amddiffyn plant a gwrando ar blant yn rhan o'i hymgyrch Full Stop sy'n mynd rhagddi i roi diwedd ar greulondeb i blant. Hoffwn ddiolch hefyd i Aelodau eraill am eu cyfraniadau. Mae amddiffyn plant yn fater i bawb, ac mae gan bob un ohonom ddyletswydd i leisio unrhyw bryderon a all fod gennym yngylch lles a diogelwch plentyn. Mae'r ddadl hon, ac adroddiad yr NSPCC, yn ein symud ymlaen o ran y perspectif ehangach o wrando ar blant, a bod yn agored fel oedolion er mwyn iddynt allu troi atom ac ymddiried ynom. Fel dywedodd Denise, mae'n allweddol bod plant a phobl ifanc hefyd yn gallu troi at eu cyfoedion ac ymddiried ynddynt. Mae'r gwefannau, y llinellau cymorth a'r prosiectau a grybwyllyd heddiw, sy'n arloesol ac sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn, yn arwain y ffordd. Yr wyf yn falch, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am iechyd a lles plant, fy mod yn gallu ymateb i'r cynigion yn adroddiad yr NSPCC a'u cymeradwyo.

Mae'r Mesur Plant yn cyflwyno cyfleoedd newydd, oherwydd bydd yn arwain at newidiadau i bolisiau a deddfwriaeth yng Nghymru er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a lleihau'r risgau sy'n wynebu pob plentyn a pherson ifanc. Byddwn yn gallu sicrhau bod gwasanaethau yn canolbwytio'n gyffredinol ac yn fwy effeithiol ar anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r Mesur yn gosod cyfrifoldeb ar asiantaethau allweddol i ystyried diogelu plant a hyrwyddo eu lles wrth arfer eu swyddogaethau arferol. Mae mynchu'r ysgol yn rhan o hyn, sef y rheswm pam mae addysg yn allweddol. Bydd byrddau diogelu plant lleol statudol newydd yn disodli'r pwylgorau amddiffyn plant ardal. Bydd hyn yn sicrhau bod gan awdurdodau ddylanwad ac yn rhoi cefnogaeth i'r grwpiau aml-asiantaeth â chyfrifoldebau yn hyn o beth.

It is good and right that the NSPCC report recognises the role of the Children's Commissioner for Wales in providing children and young people with someone to talk to and someone who will take their concerns seriously. When people ask me about the achievements of the children's commissioner and what his role has meant in the past few years, I tell them that one of the most important aspects is the fact that his office exists, because while children may feel that they cannot talk to the commissioner personally, they know that the office exists and that they can take their concerns there. The rest of the UK is following suit in establishing children's commissioners.

The importance of independent advocacy is conveyed in the NSPCC report. We are committed to ensuring that listening and responding to children and young people is part of everyday practice. Independent advocacy is key to this. Since June, children in need have had a statutory right to an independent advocate when raising concerns or making a complaint. Our aim is to extend access to advocacy services to all children and young people in health, social care and education settings. Christine outlined a powerful case study of someone who was clearly excluded and neglected. We find that many children who may think that their circumstances are reasonably protected are suffering from pain, distress and abuse. We need to reach out to all children and young people. A task group has been set up to report on the future development of advocacy in Wales, in order to provide a universal service for all children. The NSPCC is represented on this group.

Many Members have referred to the provision of independent counselling through schools. Children's education is a part of everyday life, and this service could be key. Many young people face social and emotional problems that can affect their educational achievements, experiences and opportunities. Such needs and situations can be overwhelming, as Denise described from her experience as a former teacher. Counselling can play an important role in

Mae'n briodol bod adroddiad yr NSPCC yn cydnabod rôl Comisiynydd Plant Cymru yn y gwaith o sicrhau bod gan blant a phobl ifanc rywun i siarad â hwy a rywun a fydd yn cymryd eu pryderon o ddifrif. Pan fydd pobl yn gofyn imi am gyflawniadau'r comisiynydd plant a beth mae ei rôl wedi ei olygu yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, dywedaf wrthynt mai un o'r agweddau pwysicaf yw'r ffaith bod ei swyddfa yn bodoli, oherwydd er y gall plant deimlo na allant siarad â'r comisiynydd yn bersonol, maent yn gwybod bod y swyddfa yn bodoli ac y gallant leisio eu pryderon yno. Mae gweddill y DU yn dilyn yr esiampl hon drwy sefydlu comisiynwyr plant.

Cyflêir pwysigrwydd eiriolaeth annibynnol yn adroddiad yr NSPCC. Yr ydym yn ymrwymedig i sicrhau bod gwrando ar blant a phobl ifanc ac ymateb iddynt yn rhan o arfer pob dydd. Mae eiriolaeth annibynnol yn allweddol i hyn. Ers mis Mehefin, mae gan blant mewn angen hawl statudol i gael eiriolwr annibynnol wrth leisio pryderon neu wneud cwyn. Ein nod yw sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg ar gael i bob plentyn neu berson ifanc. Amlinellodd Christine astudiaeth achos bwerus o rywun a oedd wedi'i allgáu a'i esgeulus. Canfyddwn fod llawer o blant sy'n credu bod eu hamgylchiadau wedi'u diogelu'n rhesymol yn dioddef poen, gofid ac yn cael eu camdrin. Mae angen inni helpu pob plentyn a pherson ifanc. Sefydlwyd grŵp gorchwyl i gyflwyno adroddiadau ar ddatblygiad eiriolaeth yng Nghymru yn y dyfodol, er mwyn darparu gwasanaeth cyffredinol ar gyfer plant. Cynrychiolir yr NSPCC ar y grŵp hwn.

Mae llawer o Aelodau wedi cyfeirio at ddarpariaeth gwasanaeth cwnsela annibynnol drwy ysgolion. Mae addysg plant yn rhan o fywyd pob dydd, a gallai'r gwasanaeth hwn fod yn allweddol. Mae llawer o bobl ifanc yn wynebu problemau cymdeithasol ac emosiynol a all effeithio ar eu cyflawniadau addysgol, eu profiadau a'u cyfleoedd. Gall anghenion a sefyllfaoedd o'r fath fynd yn drech na hwy, fel y disgrifiodd Denise o'i profiad fel cyn-athrawes. Gall cwnsela

helping to address a pupil's underlying problems. It is difficult for a child to focus on learning if he or she is upset, frustrated or confused. Therefore, we must consider how we can present an opportunity for independent and supportive counselling. As Christine said, we have a long way to go in terms of policy, but the 14 to 19 learning pathways action plan considers how we can develop basic support mechanisms on counselling issues.

**Kirsty Williams:** You have rightly stressed the need for universal access. Are you aware that 60 per cent of calls to children's helplines are made from telephone boxes? That is for the obvious reason that children cannot access such services from telephones in their homes. A potentially unforeseen problem will be caused by BT's proposals to remove 1,000 phone boxes from across Wales. I am sure that BT is unaware of the impact that that will have on children's ability to find help and advice in a safe environment. Will you undertake to discuss this with Cabinet colleagues? I urge you to contact BT to make it aware of the potential damage that could be done to children who want to access these services by proposals to remove phone boxes from everyone's constituencies.

**Jane Hutt:** That is a confidentiality and privacy issue. Young people often need to make calls for help in a time of crisis. The evidence that you have given certainly suggests that we need to raise this.

We also know that text messaging, websites and e-mail are used by young people who can access a computer, though not necessarily in their homes. NHS Direct now provides a service for young people and it finds, as do the Samaritans, that they are happier to e-mail than phone. We must listen to children and young people and you have given us some evidence of what would be the most appropriate ways of reaching out to them. Helplines are key and I am glad that we have heard more about the NSPCC's

chwarae rhan bwysig i helpu i fynd i'r afael â phroblemau sylfaenol disgwybl. Mae'n anodd i blentyn ganolbwytio ar ddysgu os yw'n teimlo'n ofidus, yn rhwystredig neu'n ddryslyd. Felly, rhaid inni ystyried sut y gallwn roi cyfle i ddarparu gwasanaeth cwnsela annibynnol a chefnogol. Fel y dywedodd Christine, mae gennym lawer o waith i'w wneud o ran polisi, ond mae cynllun gweithredu llwybrau dysgu 14 i 19 yn ystyried sut y gallwn ddatblygu cymorth sylfaenol o ran materion sy'n ymwneud â chwnsela.

**Kirsty Williams:** Yr ydych yn gywir i bwysleisio'r angen am wasanaeth sydd ar gael i bawb. A ydych yn ymwybodol o'r ffaith bod 60 y cant o'r galwadau a wneir i linellau cymorth plant yn cael eu gwneud o flychau ffôn? Mae hynny am y rheswm amlwg na all plant gael gafael ar wasanaethau o'r fath o ffonau yn eu cartrefi. Bydd problem bosibl nas rhagwelwyd yn cael ei chreu gan gynnig BT i gael gwared ar 1,000 o flychau ffôn ledled Cymru. Yr wyf yn siŵr nad yw BT yn ymwybodol o'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar allu plant i ddod o hyd i help a chyngor mewn amgylchedd diogel. A wnewch drafod hyn gyda'ch cyd-Aelodau yn y Cabinet? Fe'ch anogaf i gysylltu â BT er mwyn ei wneud yn ymwybodol o'r niwed posibl y gellid ei wneud i blant sydd am gael gafael ar y gwasanaethau hyn drwy gynigion i gael gwared ar flychau ffôn o etholaethau pawb.

**Jane Hutt:** Mae hwnnw'n fater sy'n ymwneud â chyfrinachedd a phrifatrwydd. Yn aml mae angen i bobl ifanc alw am help mewn argyfwng. Mae'r dystiolaeth a roddwyd gennych yn sicr yn awgrymu bod angen inni godi hyn.

Gwyddom hefyd fod pobl ifanc sy'n gallu cael gafael ar gyfrifiadur yn defnyddio negeseuon testun, gwefannau a negeseuon e-bost, er nid o reidrwydd yn eu cartrefi eu hunain. Mae Galw Iechyd Cymru bellach yn darparu gwasanaeth i bobl ifanc ac mae wedi canfod, fel gwna'r Samariaid, eu bod yn hapusach yn defnyddio'r e-bost na'r ffôn. Rhaid inni wrando ar blant a phobl ifanc ac yr ydych wedi rhoi rhywfaint o dystiolaeth inni o'r ffyrdd mwyaf priodol o'u cyrraedd. Mae llinellau cymorth yn allweddol ac yr wyf

developments. I will address your public telephone concerns.

Again, on education, the personal and social education framework emphasises a child's entire social and emotional, as well as educational, development and is a statutory requirement in the curriculum for children aged five to 16. The PSE framework is about relationships and wider responses within the community, such as peer support, as well as about developing self-awareness and self-respect, which are vital if we are to take this forward because again, it is about access to normal, everyday life experiences. Around £0.5 million will be going to 10 innovative PSE pilot projects across Wales. This also focuses on early intervention and the provision of trained pastoral and counselling support in schools, so if we can disseminate good practice from those pilot schemes, we will ensure that we adopt an all-Wales response, particularly in terms of personal, social and educational development.

You mentioned bullying, which is of great concern. It was tragically highlighted in recent press reports. Last September, guidance was issued to all schools on tackling bullying. There are a number of suggested proposals to prevent and deal with incidents of bullying, such as advice on developing anti-bullying policies in schools. Again, evidence has shown that children and young people need to be engaged in those discussions, and become mentors and buddies. We know that that can work from primary through to secondary school. School councils are taking a lead on that. Jane Davidson will write to all schools to remind them about the guidance, asking them for examples of good practice that we can share across Wales.

5.40 p.m.

In addition, we have begun work on developing information for children and young people on what to do if they are being bullied, whom they can turn to and how they can help others who are being bullied. Young people will be involved in the consultation

yn falch ein bod wedi clywed mwy am ddatblygiadau'r NSPCC. Af i'r afael â'ch pryderon ynghylch ffonau cyhoeddus.

Unwaith eto, mae'r fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol yn rhoi pwyslais ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol cyfan plentyn, yn ogystal â'i ddatblygiad addysgol ac mae'n ofyniad statudol yn y cwricwlwm i blant rhwng pump ac 16 oed. Mae'r fframwaith ABCh yn ymwneud â chydberthnasau ac ymatebion ehangach yn y gymuned, fel cymorth cyfoedion, yn ogystal â datblygu hunan-ymwybyddiaeth a hunan-barch, sy'n hanfodol os ydym i ddatblygu hyn oherwydd unwaith eto, mae'n ymwneud â chael profiadau normal, pob dydd. Bydd tua £0.5 miliwn yn cael ei wario ar 10 prosiect peilot ABCh arloesol ledled Cymru. Mae hyn hefyd yn canolbwytio ar ymyrraeth gynnari a darparu cymorth bugeiliol a chwnsela mewn ysgolion gan rai sydd wedi cael hyfforddiant, felly os gallwn rannu arfer da o'r cynlluniau peilot hynny, gwnawn sicrhau ein bod yn mabwysiadu ymateb Cymru gyfan, yn enwedig o ran datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol.

Bu ichi gyfeirio at fwlio, sy'n bryder mawr. Fe'i hamlygwyd yn drasig mewn adroddiadau diweddar yn y wasg. Fis Medi diwethaf, rhoddwyd canllawiau i bob ysgol ar fynd i'r afael â bwlio. Ceir nifer o gynigion i atal ac ymdrin ag achosion o fwlio, fel cyngor ar ddatblygu polisiau gwrth-fwlio mewn ysgolion. Unwaith eto, dengys tystiolaeth fod angen i blant a phobl ifanc gymryd rhan yn y trafodaethau hynny, a bod yn fentoriaid ac yn gyfeillion. Gwyddom ein bod yn gallu gweithio o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd. Mae cyngorau ysgol yn arwain yn hynny o beth. Bydd Jane Davidson yn ysgrifennu at bob ysgol i'w hatgoffa o'r canllawiau, gan ofyn iddynt roi engrifftiau o arfer da y gallwn ei rannu ledled Cymru.

Yn ogystal, yr ydym wedi dechrau gweithio ar ddatblygu gwybodaeth i blant a phobl ifanc am yr hyn i'w wneud os cânt eu bwlio, at bwy y gallant droi a sut y gallant helpu eraill sy'n cael eu bwlio. Bydd pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori yn

later this year and an expert group is developing guidance for schools to help promote pupils' mental health and psychological wellbeing. Teachers and all school staff must be able to easily spot early warning signs and deal effectively with minor issues or, if necessary, refer pupils on to more specialist services. That leads us to the child and adolescent mental health strategy, which is appropriately called 'Everybody's Business'. That has been rightly raised by the children's commissioner and the Assembly as a priority. I will be investing additional money this year to ensure that 'Everybody's Business' is fully implemented.

We must also look at the starting point, which is prevention. That is what Cymorth is about. The sum of £42 million has been ring-fenced to local authorities across Wales, and with Sure Start and the children and young people's fund, play, childcare and children's integrated centres are developing across the country. These must all be child-centred and start from the premise that we must listen to and learn from children and young people. We must break down barriers in Wales.

Finally, Members will be aware that Gwenda Thomas's review on safeguarding vulnerable children in Wales will involve listening and talking to children and young people who have been at the sharp end of vulnerability. Gwenda assured me that the NSPCC's proposals are being brought to the attention of her group.

In conclusion, I thank Christine for bringing this important subject to our attention and for highlighting this new dimension of the NSPCC's Full Stop campaign in Wales; the Welsh Assembly Government backs that.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.42 p.m.  
The meeting ended at 5.42 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau  
Members and their Parties**

ddiweddgarach eleni ac mae grŵp o arbenigwyr wrthi'n datblygu canllawiau i ysgolion er mwyn helpu i hyrwyddo iechyd meddwl a lles seicolegol disgylion. Rhaid bod athrawon a phob aelod o staff yr ysgol yn gallu adnabod y rhybuddion cynnar yn hawdd ac ymdrin yn effeithiol â mân broblemau neu, os oes angen, cyfeirio disgylion at wasanaethau mwy arbenigol. Mae hynny'n ein harwain at y strategaeth iechyd meddwl i blant a'r glasoed, a elwir yn briodol yn 'Fusnes Pawb'. Nodwyd y strategaeth hon fel blaenoriaeth gan y comisiynydd plant a'r Cynulliad a hynny'n gywir. Byddaf yn buddsoddi arian ychwanegol eleni er mwyn sicrhau bod 'Busnes Pawb' yn cael ei gweithredu'n llawn.

Rhaid inni hefyd edrych ar y man cychwyn, saf atal problemau. Dyna nod Cymorth. Neilltuwyd £42 miliwn i awdurdodau lleol ledled Cymru, a chyda Cychwyn Cadarn a'r gronfa i blant a phobl ifanc, mae gofal plant a chanolfannau plant integredig yn cael eu datblygu ledled y sir. Rhaid i'r rhain ganolbwytio ar y plentyn a bod yn seiliedig ar y ffaith bod yn rhaid inni wrando ar blant a phobl ifanc a dysgu ganddynt. Rhaid inni ddileu'r rhwystrau yng Nghymru.

Yn olaf, bydd yr Aelodau yn ymwybodol o'r ffaith bod adolygiad Gwenda Thomas ar ddiogelu plant diamddiffyn yng Nghymru yn cynnwys gwrando ar blant a phobl ifanc ddiamddiffyn iawn a siarad â hwy. Cefais sicrydd gan Gwenda fod cynigion yr NSPCC yn cael eu dwyn at sylw ei grŵp.

I gloi, hoffwn ddiolch i Christine am dynnu ein sylw at y pwnc pwysig hwn ac am amlyu'r dimensiwn newydd hwn i ymgyrch Full Stop yr NSPCC yng Nghymru; mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi hynny.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
 Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Dunwoody-Kneafsey, Tamsin (Llafur - Labour)  
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Essex, Sue (Llafur – Labour)  
 Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
 Gwyther, Christine (Llafur – Labour)  
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 James, Irene (Llafur – Labour)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Law, Peter (Llafur – Labour)  
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
 Marek, John (Annibynnol – Independent)  
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
 Pugh, Alun (Llafur – Labour)  
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
 Thomas, Catherine (Llafur – Labour)  
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
 Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)  
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)

29/09/2004